

PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU

CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020

Dyddiad: 15 Medi 2017

Amser: 9.30am

Lleoliad: Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful

AGENDA

- | | | |
|--|---------------|-------------|
| 1. Croeso ac ymddiheuriadau | 09:30 - 09:35 | |
| 2. Cofnodion cyfarfod mis Mehefin, camau gweithredu a materion eraill sy'n codi | 09:35 - 09:45 | WPMC(17)M14 |
| 3. Y diweddaraf am hynt y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, gan gynnwys gwaith datblygu portffolio | 09:45 - 10:00 | WPMC(17)102 |
| <u>Gan gynnwys:</u> | | |
| (a) Rhaglenni ERDF | 10:00 - 10:15 | WPMC(17)103 |
| (b) Rhaglenni ESF | 10:15 - 10:30 | WPMC(17)104 |
| (c) Rhaglenni Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru | 10:30 - 10:45 | WPMC(17)105 |
| (d) Cronfeydd Strwythurol: Rhestr o Weithrediadau Cymeradwyo (Papur i Gofnodi) | | WPMC(17)106 |
| (e) Fframwaith Perfformiad (Papur i Gofnodi) | | WPMC(17)107 |
| 4. Addasiadau Rhaglenni ERDF ac ESF | 10:45 - 11:00 | |
| **Egwyl 11:00 - 11:20** | | |
| 5. Gwybodaeth a Strategaeth Gyhoeddusrwydd y Rhaglenni Datblygu Gwledig | 11:20 - 11:40 | WPMC(17)108 |
| <u>Gan gynnwys:</u> | | |
| (a) Cynllun Gwaith WRN 2017 | | WPMC(17)109 |
| 6. Cyflwyniad Rhwydwaith Gwledig Cymru | 11:40 - 12:10 | |
| 7. Y diweddaraf ynghylch dyfodol Polisi Rhanbarthol | 12:10 - 12:30 | |
| 8. Unrhyw Fater Arall | 12:30 - 13:00 | |
| a) Meini Prawf Dethol y Rhaglenni Datblygu Gwledig | | WPMC(17)110 |
| b) Meini Prawf Dethol y Rhaglenni Datblygu Gwledig: Atodiad 1 | | WPMC(17)111 |
| c) Adroddiadau Gweithredu Blynnyddol 2016 (agb): Sylwadau Aelodau Pwyllgor Monitro Rhaglenni ac Ymatebion Yr Awdurdod Rheoli (Papur i Gofnodi) | | WPMC(17)112 |

****Cinio 13:30 - 13:45****

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU Y CRONFEYDD STRWYTHUROL A
BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020**

**Dydd Gwener 16 Mehefin 2017
Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful**

Nodiadau Cyfarfod

EITEM 1: Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

1. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod Pwyllgor Monitro Rhaglenni (PMRh) Cymru. Rhestrir y bobl a oedd yn bresennol ac ymddiheuriadau yn **Atodiad A**. Nododd y Cadeirydd fod hwn yn gyfarfod pwysig, yr olaf i Damien O'Brien, Prif Swyddog Gweithredol presennol WEFO, cyn iddo ymddeol a'r cyntaf i'w olynydd, Sioned Evans, sy'n ymgymryd yn ffurfiol â rôl Prif Swyddog Gweithredol WEFO heddiw.
2. Oherwydd cyfyngiadau cyfnod yr etholiad a oedd yn golygu bod angen newid dyddiad cyfarfod y PMRh, ymddiheurodd y Cadeirydd am ddosbarthu'r papurau i'r aelodau wythnos yn unig ymlaen llaw yn lle'r ddwy arferol.

EITEM 2: Cofnodion cyfarfod mis Chwefror, camau gweithredu a materion eraill sy'n codi

3. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod paragraff 26 o'r cofnodion wedi'i ddiwygio. Diwygiwyd y dyddiad cymeradwyo ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig o 28 Mai 2015 i 26 Mai 2015. Wedi ystyried y diwygiad hwn, cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.
4. Mae cynnydd ar y pwyntiau gweithredu a oedd yn codi o'r cyfarfod blaenorol wedi'i restru yn **Atodiad B**.

EITEM 3: Diweddariad ar Gynnydd y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, gan gynnwys datblygiad portffolio

Trosolwg

5. Cyflwynodd Damien O'Brien drosolwg o gynnydd rhaglenni ers cyfarfod 24 Chwefror 2017:
 - Yn gyffredinol, neilltuwyd 65% o adnoddau'r Cronfeydd Strwythurol (£1.3 biliwn). Nod WEFO yw neilltuo 80% o'r rhaglenni erbyn diwedd 2017 a 100% erbyn diwedd 2018, er mwyn sicrhau y byddai'r holl gyllid o fewn cwmpas gwarant Trysorlys Llywodraeth y DU
 - Cymeradwywyd 151 o weithrediadau gwerth £2.5 biliwn ac mae 57 o weithrediadau ar y cam cynllunio

- Mae holl raglenni'r Cronfeydd Strwythurol eisoes wedi cyflawni targedau N+3
- Mae nifer o geisiadau parhaus am brosiectau a fydd yn arwain at gymeradwyo rhagor o weithrediadau
- Yn gyffredinol, neilltuwyd 82% o'r Rhaglen Datblygu Gwledig
- Lansiodd 19 o gynlluniau'r Cynllun Datblygu Gwledig (lefel Mesur)
- Bydd rhywun yn cynrychioli Rhwydwaith Gwledig Cymru yn Sioe Frenhinol Cymru 24-27 Gorffennaf 2017 a bydd yn tynnu sylw at brosiectau a gefnogwyd hyd yn hyn
- Bydd Rhwydwaith Gwledig Cymru yn trefnu Cydgynhadledd Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol y DU yn Belfast ar y cyd â thri rhwydwaith arall o'r DU er mwyn edrych ar fywyd gwledig a'i drafod.
- Cynhelir cyfarfod Grŵp Llywio Rhwydwaith Gwledig Cymru yn ystod mis Medi 2017

6. Nododd Damien fod Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, wedi lansio papur polisi Llywodraeth Cymru ar 'Brexit a Datganoli: Diogelu Dyfodol Cymru'. Mae'r papur yn cyflwyno glasbrint ar gyfer newid cyfansoddiadol mawr yn y DU sy'n gallu ateb yr heriau i'r cenhedloedd datganoledig a threfniadau llywodraethu'r wlad gyfan yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â 'Brexit'. Caiff copi o'r papur polisi ei ddosbarthu i'r aelodau. Hefyd, roedd copi o'r llythyr a anfonodd Prif Weinidog Cymru at y Prif Weinidog ar ôl yr etholiad yn tynnu sylw at bryderon Llywodraeth Cymru wedi'i gyflwyno yn y cyfarfod a gofynnodd Damien i'r aelodau atgyfnerthu'r negeseuon hyn drwy eu sectorau priodol.

Cam Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu copi o'r papur polisi 'Brexit a Datganoli' i'r aelodau.

7. Ymhlith y blaenoriaethau allweddol ar gyfer y cyfnod i ddod mae'r canlynol:

- Cynyddu lefelau neilltuo a chyflawni i'r eithaf yn yr holl raglenni
- Lansio ymgynghoriad ar ddyfodol datblygiad economaidd rhanbarthol yng Nghymru

Rhaglenni ERDF

8. Nododd Sue Price, Pennaeth Rhaglenni ERDF, WEFO, fod diddordeb mawr o hyd yn Rhaglenni ERDF a diolchodd i'r aelodau am eu cefnogaeth barhaus. Mae'r hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn i'w briodoli i ddull partneriaeth. Mae WEFO, fel cyllidwyr, yn dibynnu ar bartneriaid i gyflwyno cynigion a phwysleisiodd Sue fod angen i hyn barhau am y 12-18 mis nesaf.

9. Mae'r ddwy Raglen ERDF yn parhau i wneud cynnydd da gyda 74 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo gan neilltuo grant o £700 miliwn, sef 60% o'r rhaglenni. Atgoffwyd yr aelodau bod y pwyslais ar gyfer y gweithrediadau hyn bellach ar gyflawni ymrwymadau gwario drwy gyflawni'r hyn y cytunwyd arno a chyflwyno hawliadau mewn modd amserol.

10. Rhoddodd Sue yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar weithgarwch ym mhob blaenoriaeth, gan amlygu'r canlynol:

- Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesedd - gan fod gweithrediadau strategol a/neu brif weithrediadau ar waith, mae'r ffocws wedi bod ar y cais am gynigion arloesol a all drosi ymchwil ac arloesedd yn llwyddiannus yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau newydd a masnachol. Roedd y cais yn llwyddiannus iawn – gwahoddwyd 17 o gynigion newydd i'r cam cynllunio busnes ffurfiol. Mae gan y cynigion hyn y potensial i ymdrin â nifer o feysydd arbenigo clyfar, a neilltuo mwy na £50m dros y ddwy raglen. Rhagwelir y bydd y flaenoriaeth hon yn neilltuo'r holl arian sydd ar gael. Efallai y gwneir cais arall pan fydd y lefelau neilltuo mewn blaenoriaethau eraill yn hysbys.
- Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaCh – mae'r Flaenoriaeth yn sefydlog gyda lefelau neilltuo uchel dros y ddwy raglen. Felly, mae'r ffocws bellach ar gyflawni i raddau helaeth. Cynhaliodd WEFO symposiwm Teulu Busnes Cymru ar gyfer arweinwyr gweithrediadau, asiantiaid cyflawni, CLILC a'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol ym mis Medi 2016, ac mae ail ddigwyddiad yn cael ei gynllunio ar gyfer 2017. Diolchodd Sue i'r aelodau am helpu i gynyddu lefelau neilltuo i £216m.
- Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni – agorodd WEFO gais am gynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol ar raddfa fach, a ddaw i ben ar 30 Mehefin. Cyflwynwyd dull newydd o ymgysylltu â'r cymunedau er mwyn helpu i annog ceisiadau drwy dair sesiwn 'galw heibio'. Rhoddodd y sesiynau hyn ganlyniadau calonogol gyda 30 o bartneriaid â diddordeb, yn bennaf o ardal rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Pan fydd y cais wedi dod i ben, bydd WEFO yn ystyried lefel y diddordeb yn y ddwy raglen ac yn penderfynu a oes angen cynnwys newidiadau mewn addasiad i'r rhaglenni. Nodwyd bod cryn ddiddordeb wedi'i ddangos mewn cynlluniau ynni'r môr ac y gallai fod angen dyrannu rhagor o adnoddau i'r Flaenoriaeth hon er mwyn datblygu'r cynlluniau hyn.
- Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol – rhagwelir y caiff dros 80% o'r flaenoriaeth hon ei neilltuo erbyn diwedd 2017 pan gynhwysir adnoddau ar gyfer gweithrediad Cam 2 y Metro. Fodd bynnag, mae gan rai gweithrediadau sy'n cael eu datblygu faterion cydymffurfio i'w datrys cyn iddynt gael eu cymeradwyo. Bydd WEFO yn ceisio datblygu cynifer o weithrediadau â phosibl. Mae WEFO yn gweithio gyda'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol (RET) er mwyn blaenoriaethu rhagor o gynlluniau posibl ond, oherwydd yr amserlenni byr sydd ar gael, bydd angen cyflwyno'r gweithrediadau hyn cyn gynted â phosibl.

11. Gan fod gweithrediadau ar y cam cynllunio busnes yn cyfrif am grant gwerth £49m a'r rhai ar y cam cyn cynllunio yn cyfrif am £11m arall, nodwyd bod cynnydd yn y lefel neilltuo o 62% i 90% ar gyfer rhaglen Dwyrain Cymru yn bosibl. Amodir hyn gan yr un materion â rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd gan y bydd datrys unrhyw faterion cydymffurfio sy'n codi a pharhau i ganolbwyntio ar gyflawni yn ffactorau pwysig.
12. Hysbysodd Sue yr aelodau fod targed cronfa berfformiad Blaenoriaeth 3 eisoes wedi'i gyflawni yn bennaf drwy gyflawni gweithrediad Minesto. Oherwydd natur hirdymor gweithrediadau o dan Flaenoriaeth 3 a Blaenoriaeth 4, ni chaiff yr allbynnau cysylltiedig eu gwireddu tan yn ddiweddarach yn y broses o gyflawni'r Rhaglen.

Rhaglenni ESF

13. Nododd Jane McMillan, Pennaeth Rhaglenni ESF, WEFO, fod rhaglenni ESF yn parhau i wneud cynnydd da gyda lefel neilltuo gyffredinol o 73% rhwng y ddwy raglen, 77 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo gan neilltuo £628m yn gyffredinol, £15m ychwanegol o ESF ers cyfarfod diwethaf y PMRh.
14. Mae'r swm ychwanegol a neilltuwyd yn adlewyrchu'r ffaith bod tri gweithrediad newydd wedi'u cymeradwyo, ond hefyd bod estyniadau i'r gweithrediadau presennol wedi'u cynllunio o dan bob maes blaenoriaeth. Mae WEFO yn bwriadu neilltuo'r £232m sy'n weddill o Gronfa Gymdeithasol Ewrop erbyn diwedd 2018 drwy gyfuniad o weithrediadau newydd a gweithrediadau sydd yn yr arfaeth, gan ymestyn gweithrediadau i gyflawni mwy dros gyfnodau hwy lle maent yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau a cheisiadau wedi'u targedu am feysydd o fewn y rhaglenni lle nad yw'r diddordeb wedi datblygu'n unol â'r disgwyl. Nid yw cyflawni'r lefel hon o gynnydd heb her ac atgoffwyd yr aelodau bod angen iddynt gyflawni'r gweithrediadau yr oeddent wedi ymrwymo iddynt mewn modd amserol a, lle y bo'n bosibl, gyflwyno unrhyw gynigion newydd cyn gynted â phosibl.
15. Nododd Jane fod gan y rhan fwyaf o feysydd blaenoriaeth ac amcan penodol bortffolio cytbwys o weithrediadau sydd â'r nod o gyflawni ar gyfer yr amrywiaeth o grwpiau cleientiaid targed sy'n cymryd rhan a'r canlyniadau targed. Gallai gweithrediadau newydd sy'n cael eu datblygu o hyd arwain at neilltuo £22m arall ac maent yn cynnig gweithgarwch arbenigol wedi'i deilwra'n fwy i lenwi bylchau yn yr amrywiaeth o ddarpariaeth a gynigir neu'r grŵp cleient a dargedir.
16. Yn ychwanegol at reoli symiau neilltuo'r dyfodol, mae prif ffocws Cronfa Gymdeithasol Ewrop bellach ar gyflawni. Mae'r rhaglenni eisoes wedi rhoi canlyniadau da, megis ymgysylltu â mwy nag 85,000 o gyfranogwyr hyd yma

(20% o'r targed cyffredinol), gan helpu mwy na 3,300 o bobl i mewn i waith ac ychydig dros 35,000 i ennill cymwysterau/cymwysterau uwch.

17. Tynnodd Jane sylw hefyd at y canlynol:

- Blaenoriaeth 1 - Blaenoriaeth Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy - Mae WEFO eisoes wedi agor cais am gynigion yn y flaenoriaeth hon sy'n canolbwyntio'n benodol ar gyflogadwyedd yn ardal rhaglen Dwyrain Cymru a'r di-waith yn ardal rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd lle mae lefelau neilltuo'n is na'r disgwyl o hyd. Daw'r cais i ben ar 30 Mehefin. Bu rhywfaint o ddiddordeb, ond mae'r diffyg arian cyfatebol wedi cael effaith ar y cynigion sy'n cael eu cyflwyno. Nid yw'n sicr eto a geir unrhyw weithrediadau y gellir eu datblygu, ond bydd canlyniad y cais hwn yn helpu WEFO i benderfynu a oes angen addasiadau i'r rhaglenni er mwyn tynnu cyllid o'r flaenoriaeth hon.
- Blaenoriaeth 2 – Sgiliau ar gyfer Twf – mae cynnydd da yn cael ei wneud o dan y flaenoriaeth hon ac mae £1.1m arall wedi'i neilltuo ers y cyfarfod diwethaf, gan fynd â'r lefel neilltuo i 86% (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) a 57% (Dwyrain Cymru). Mae 57,000 o gyfranogwyr eisoes wedi'u cofrestru gan weithrediadau cymeradwy. Mae'r targedau a gyflawnwyd o ran cyfranogwyr yn ennill cymwysterau'n adlewyrchu hyd y cyrsiau (MA/PhD) ynghyd ag amseriad y flwyddyn academiaidd. Disgwylir rhagor o ganlyniadau o fis Gorffennaf/Awst ymlaen.
- Blaenoriaeth 3 – Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc – arweiniodd yr ymyriadau newydd o dan y flaenoriaeth hon at ddechrau araf, ond maent bellach wedi cyrraedd lefel neilltuo 73% ar gyfer y ddwy raglen, gyda £6.5m arall wedi'i gymeradwyo ers y cyfarfod diwethaf. Hefyd, mae nifer o weithrediadau sydd yn yr arfaeth yn agos at gael eu cymeradwyo. Er bod y flaenoriaeth hon yn her, gan ei bod yn ymdrin â chyfranogwyr sy'n NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) neu mewn perygl o fod yn NEET, cefnogwyd 19,000 o gyfranogwyr hyd yn hyn.

18. Ychwanegodd Damien mai rhan o'r her sy'n gysylltiedig â rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop oedd cyrraedd lefel neilltuo lawn wrth dargedu'r bobl anoddaf eu cyrraedd mewn marchnad waith dynn lle mae llai o safleoedd a lle mae'r costau'n ddrutach. Gofynnodd i'r aelodau helpu WEFO i greu ffyrdd arloesol o helpu'r gynulleidfa darged hon.

19. Llongyfarchodd y Cadeirydd WEFO ar y cynnydd a wnaed ar y rhaglenni er gwaethaf yr heriau a drafodwyd heddiw.

20. Nododd un aelod ei fod yn ei fod yn gryf o blaid bod yn hyblyg ynglŷn â ffocws rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop am y rhesymau a drafodwyd a bod hyn hefyd yn adlewyrchu'r newid yn y ffordd y mae tlodi yn cael ei ddiffinio gan ei fod bellach yn ymwneud â theuluoedd nad ydynt yn ddi-waith. Awgrymodd aelod arall hefyd wrth dargedu sgiliau Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd efallai y gellid ehangu'r cwrpas o'r meysydd sy'n peri her fawr yn unig i gynnwys sgiliau eraill.

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglenni Datblygu Gwledig

21. Tynnodd Terri Thomas, Pennaeth Is-adran Datblygu Gwledig, sylw at y canlynol:

- Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn parhau i wneud cynnydd da. Rhagwelir y bydd y rhaglenni'n cyrraedd lefel neilltuo o 102% ond, oherwydd tanwariant disgwylledig, caiff y ffigur hwn ei leihau. Ailgyflwynwyd addasiadau i'r rhaglen y bore yma yn dilyn trafodaethau â DG AGRI ac, os cytunir ar yr addasiadau, caiff y ffigur neilltuo ei leihau i 98 % -100%.
- Mae'r holl gynlluniau'n mynd rhagddynt ac mae'r rhaglenni amaethyddiaeth/gwledig yn gweithredu'n dda er gwaethaf yr amgylchiadau economaidd presennol.
- O gynnwys cymeradwyaethau a chylchoedd datganiadau o ddiddordeb, mae cyfanswm o £787m wedi ei neilltuo, y mae £521m ohono yn arian yr UE. Ar ôl yr addasiadau, caiff y ffigurau hyn eu diwygio, y naill i £774m a'r llall i £520m.
- Gwariant y rhaglen ar hyn o bryd yw £84m y mae £61m ohono yn arian Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Mae'n debygol y bydd y ffigurau hyn yn cynyddu wrth i geisiadau sy'n cael eu hystyried gael eu cymeradwyo.
- O ran cynlluniau economaidd-gymdeithasol yn y rhaglen, gwahoddwyd cyfanswm o 454 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus a 118 o geisiadau uniongyrchol i gyflwyno cais llawn. Mae cyfanswm o 157 o ddatganiadau o ddiddordeb wedi'u cymeradwyo gyda dyraniad cyffredinol yn cynnwys ceisiadau LEADER ac uniongyrchol o £129m.
- Nodwyd bod y ffigur 118 ar gyfer ceisiadau uniongyrchol yn y papur ac y cyfeiriwyd ato yn y paragraff uchod yn anghywir ac yr ymchwilir i'r system rheoli data er mwyn cyfrifo'r ffigur cywir.

22. Croesawodd yr aelodau'r lefelau neilltuo uchel yn y rhaglen. Fodd bynnag, nodwyd y byddai'n ddefnyddiol i'r adroddiadau gynnwys esboniad ynglŷn â pham roedd rhai mesurau'n gweithio'n dda a pham nad oedd eraill yn gweithio cystal, yn enwedig lle y bu cynnydd yn y lefelau neilltuo. Hefyd, ar gyfer cyflawni

dangosyddion, roedd angen i PMRh weld ffigurau canran a gyflawnwyd, a chynnydd yn erbyn dangosyddion carreg filltir. Wrth dderbyn sylwadau'r aelodau a chytuno y bydd adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys y wybodaeth ychwanegol, esboniodd Terri pam roedd rhai o'r data wedi newid, e.e. newidiadau yn y gyfradd gyfnewid, dechrau araf i'r rhaglen, addasiadau i'r rhaglen.

23. Nododd aelod arall fod angen i randdeiliaid mewn cynlluniau cenedlaethol o dan y Cynllun Datblygu Gwledig fod yn glir ynghylch y cyllid sydd ar gael. Nodwyd bod llawer o waith wedi'i wneud i fapio cynlluniau rhanbarthol a chenedlaethol a ddangosodd fod hon yn dirwedd gymhleth.

24. Awgrymodd Marek Beran, o'r Comisiwn Ewropeaidd, DG AGRI, y gallai'r disgrifiad o'r broses ddethol ym mhennod 2 gael ei ailddrafftio er mwyn gwneud ystyr y testun yn gliriach. At hynny, gwahoddodd DG AGRI yr MA i gyflwyno, yn y dyfodol, y ffigurau ar gyfer y lefelau neilltuo (a'r ganran briodol) a'r gwariant (a'r ganran briodol) er mwyn cysoni hyn â'r Adroddiad Gweithredu Blynnyddol. Gofynnodd hefyd i'r mater sy'n ymwneud â'r ffaith bod gwerth neilltuo'r Cynllun Datblygu Gwledig ychydig dros 100% (pennod 4) gael ei egluro.

EITEM 4: Themâu Trawsbynciol: Adroddiad Blynnyddol ar Gyfleoedd Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw

25. Cyflwynodd Chriss O'Connell, Pennaeth Themâu Trawsbynciol, yr ail adolygiad blynnyddol ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu themâu trawsbynciol Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw yn Rhaglenni ERDF a Chronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020. Nododd Chris ei fod wedi bod yn gyfnod prysur ers y diweddariad diwethaf ym mis Medi 2016 gyda'r tîm yn asesu cynlluniau busnes buddiolwyr ac yn rhoi cymorth i weithrediadau ar y cam paratoi.

26. Hefyd, hysbysodd Chris yr aelodau am ddau ymweliad 'cyfle cyfartal' a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Gadeirydd y PMRh er mwyn gweld sut roedd gweithgarwch y Themâu Trawsbynciol (ThD) yn cael ei gyflawni ar lawr gwlad. Un gweithrediad yr ymwelwyd ag ef oedd gweithrediad ACE (Cyflawni Newid drwy Gyflogaeth) SOVA a'r llall oedd gweithrediad Cynhwysiant Gweithredol Cymru dan arweiniad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Cafodd y Cadeirydd gyfle i drafod ag unigolion y rhwystrau roeddent yn eu hwynebu a sut roedd y cymorth a ddarperir gan y gweithrediadau wedi'u helpu i oresgyn y rhwystrau hyn. Hefyd, dangoswyd fideo ar y ddau ymweliad i'r aelodau.

27. Tynnodd Chriss sylw at y ffaith bod y data ar y dangosyddion ffurfiol ar gyfer Cyfle Cyfartal a'r Gymraeg yn gyfyngedig a bod y cynnydd hyd yn hyn yn arafach na'r disgwyl. Gofynnodd aelod a oedd unrhyw reswm pam roedd y cynnydd yn

arafach na'r disgwyl. Ymatebodd Chriss nad oedd data ar gael ar hyn eto. Roedd gweithrediadau'n ei ddilyn ac, yn y gorffennol, bu problemau gyda'r ffordd roedd y wybodaeth wedi'i chofnodi. Fodd bynnag, mae ffocws cynyddol ar y pwnc hwn yn cael ei drafod â buddiolwyr yn ystod y cyfarfodydd adolygu gweithrediadau a dylai'r adroddiad blynyddol nesaf ddangos bod cynnydd yn cael ei fonitro'n well.

28. Esboniodd Chriss hefyd fod gan y targedau ffurfiol eu cyfyngiadau o ran dilysu'r ystod eang o weithgarwch cysylltiedig a gynhelir ar y Themâu Trawsbynciol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, roedd WEFO wedi cytuno ar ddull o gofnodi'r ystod ehangach o weithgarwch gyda'r aelodau yng nghyfarfod y PMRh a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2015 ac mae'n darparu ar gyfer nodi a chofnodi arfer da. Mae Atodiad 2 i'r papur WPMC (17)95 yn rhoi blas ar y gweithgarwch hwn.
29. Rhoddodd Chriss wybod bod y tîm Themâu Trawsbynciol wedi bod yn parhau i archwilio ffyrdd o roi cyhoeddusrwydd i'r ffordd y mae gweithrediadau'n integreiddio'r themâu trawsbynciol yn y broses o ddylunio a chyflawni eu gweithrediad. Gan weithio gyda Thîm Cyfathrebu WEFO, y nod yw codi proffil y themâu trawsbynciol a dangos y gwerth ychwanegol y gallant ei gyflwyno i weithrediadau.
30. Diolchodd y Cadeirydd i Chriss am drefnu ei hymweliadau a nododd aelodau fod y straeon unigol yn y fideo wedi helpu i gyfleu'r negeseuon yn gliriach. Ychwanegodd un aelod, o'i brofiad ef, fod angen newid diwylliannol er mwyn sicrhau y rhoddir y pwys priodol ar y Themâu Trawsbynciol a'u bod yn cael eu monitro'n fanylach. Roedd yr aelodau hefyd o'r farn y dylid rhannu unrhyw arfer da er mwyn annog gweithrediadau eraill. Tynnodd aelodau sylw at dargedau cysylltiedig a oedd yn cael eu pennu i'w sefydliadau gan ofyn a oedd hyn yn cael ei gofnodi. Cadarnhaodd Chriss mai hwn oedd y math o wybodaeth a gesglir bellach drwy'r dull newydd a drafodwyd uchod.

EITEM 5: Adroddiad Cydymffurfiaeth Rhaglenni Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd

31. Cyflwynodd Ian Owen, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, WEFO, elfennau Cronfeydd Strwythurol yr adroddiad a oedd yn cynnwys yr arolygiadau cydymffurfiaeth amrywiol a swyddogaethau archwilio dros y cyfnod ar gyfer cau rhaglenni 2007-2013 a rhaglenni 2014-2020 o ddechrau'r rhaglen hyd at fis Chwefror 2017. Nodir y manylion ym mhapur WPMC (17)96.
32. I gloi, nododd Ian fod WEFO wedi'i harchwilio gan archwilyr y CE yn ddiweddar a bod y canlyniad yn Gategori 1 sy'n cydnabod arfer da. Llongyfarchodd aelodau WEFO ar y cyflawniad hwn.

33. Nododd aelodau y byddai wedi bod yn fwy buddiol cael arbenigwr caffael WEFO yn ei le yn gynharach yn y rhaglen er mwyn sicrhau bod cyngor ar gaffael ar gael i'r buddiolwyr. Hefyd, roedd diffyg cysondeb o ran y cyngor a oedd yn cael ei roi gan is-adrannau gwahanol o fewn WEFO yn destun pryder. Cydnabu Ian y pryderon hyn a chyfeiriodd at y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â nhw, gan gynnwys y cyfarfodydd roedd wedi'u cael â chynrychiolwyr y sector i drafod pa faterion a oedd yn peri oedi i hawliadau buddiolwyr a chyfeiriodd at y gweithdai i fuddiolwyr lle roedd yn credu bod y math o bryderon a godwyd heddiw wedi'u trafod a'u datrys. Roedd rhagor o weithdai wedi'u trefnu tua diwedd y flwyddyn ac roedd Ian yn awyddus i gael adborth gan fuddiolwyr ar unrhyw anawsterau roeddent yn eu cael o hyd, yn enwedig lle roeddent yn effeithio ar eu gallu i gyflwyno hawliadau amserol.
34. Cyflwynodd Terri Thomas adroddiad ar raglen rheoli'r Cynllun Datblygu Gwledig ac esboniodd sut roedd yn wahanol i'r rheolaethau ar raglenni ERDF a Chronfa Gymdeithasol Ewrop.
35. Lle mae anghydfod ynghylch hawliadau o dan y Cynllun Datblygu Gwledig, gofynnodd un aelod a ellir ymdrin â'r rhain mor gyflym â phosibl gan fod yr effaith ar fusnesau'n sylweddol gan na all hawliadau dilynol gael eu talu iddynt nes i'r un y mae anghydfod yn ei gylch gael ei ddatrys. Cydnabu Terri bwysigrwydd y mater hwn a dywedodd fod yr Asiantaeth Taliadau Gwledig yn ymchwilio iddo.
36. Llongyfarchodd Marek Beran swyddogion ar gyflawni cyfraddau gwallau mor isel ar gyfer Cynllun Datblygu Gwledig a mynegodd ei awydd i weld hyn yn parhau.

Ffilm Fer

37. Dangoswyd ffilm fer ar brosiect menter gymunedol yng Ngogledd Cymru (Ynni Ogwen) a ariennir gan y Cynllun Datblygu Gwledig i'r aelodau yn ystod yr egwyl. Adborth yr aelodau oedd bod y ffilm yn ysbrydoledig.

EITEM 6: Adroddiadau Gweithredu Blynyddol 2016

38. Cyflwynodd Tom Smithson y papur gan nodi ei bod yn ofynnol i'r aelodau ystyried a chymeradwyo Adroddiadau Gweithredu Blynyddol 2014-2020 Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) Llywodraeth Cymru, cyn eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn y dyddiad cau rheoleiddiol, sef 30 Mehefin. Ychwanegodd Tom fod yr adroddiadau wedi cyfod adroddiadau gwerthuso a gwblhawyd drwy gydol y flwyddyn ac wedi'u hehangu eleni er mwyn ychwanegu naratif o ganlyniadau'r dadansoddiad lle y bo modd. Ni ddylai'r adroddiadau synnu neb gan fod y PMRh wedi cael adroddiadau cynnydd rheolaidd ar y rhaglenni ym mhob un o'i gyfarfodydd.

39. Gan mai dim ond wythnos cyn y cyfarfod yr oedd yr aelodau wedi derbyn y papurau, cytunwyd y byddent yn cael tan 5pm ar 23 Mehefin 2017 i gyflwyno sylwadau/rhoi cymeradwyaeth ysgrifenedig, drwy anfon neges e-bost i flwch negesueon e-bost ysgrifenyddiaeth y PMRh, ond y byddai arwydd o benderfyniad mewn egwyddor yn cael ei roi yn y cyfarfod yn amodol ar y sylwadau pellach. Cytunwyd hefyd y byddai dim ymateb gan yr aelodau erbyn y dyddiad cau, sef 23 Mehefin, yn cael ei ystyried yn gymeradwyaeth. Byddai'r aelodau'n cael fersiynau terfynol yr adroddiadau, gan gynnwys unrhyw sylwadau a gafwyd, maes o law.

40. Pleidleisiodd yr aelodau'n unfrydol i gymeradwyo Adroddiadau Gweithredu Blynyddol 2016 2014-2020 mewn egwyddor ar gyfer:

- Rhaglen ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd
- Rhaglen ERDF Dwyrain Cymru
- Rhaglen ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd
- Rhaglen ESF Dwyrain Cymru
- Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig.

Cam Gweithredu: Tom Smithson i drefnu bod copi o'r Adroddiadau Gweithredu Blynyddol terfynol, gan gynnwys unrhyw sylwadau a gafwyd gan yr aelodau ar gyfer y 5 Rhaglen uchod, yn cael ei anfon at yr aelodau.

41. Diolchodd Guus Muijzers, o'r Comisiwn Ewropeaidd, Swyddog Desg y DU, sy'n gyfrifol am Raglenni 2014-2020, DG Regio, i'r swyddogion am gwblhau'r Adroddiadau Gweithredu Blynyddol drafft, ond gofynnodd i'r aelodau a oeddent yn credu y byddai'r cyhoedd yn gallu deall crynodeb y dinesydd. Pwysleisiodd mai'r aelod-wladwriaeth a ddylai ddylunio fformat crynodeb y dinesydd gan nad oedd templed ffurfiol ar sut y dylid ei ddylunio. Cytunodd Damien i ailystyried y crynodeb yng ngoleuni'r sylwadau. Ychwanegodd Guus hefyd, os na fyddai prosiect mawr yn cael ei ddatblygu, y dylai'r adroddiadau gofnodi hyn.

42. Dywedodd Marek y dylai'r aelodau, yn unol â chylch gorchwyl y PMRh, gael papurau 10 diwrnod cyn y cyfarfod. Felly, byddai ganddynt hawl i gael rhagor o amser i'w hystyried. Dywedodd fod opsiwn hefyd i gytuno arnynt drwy weithdrefn ysgrifenedig os oedd angen. Adleisiodd hefyd y pwyntiau roedd Guus wedi'u gwneud ynghylch crynodeb y dinesydd.

43. Gofynnodd Marek am eglurder ynghylch a fyddai unrhyw gamau gweithredu dilynol yn cael eu cymryd mewn perthynas â chasgliadau'r gwerthusiadau yn yr adroddiad ac a fyddai'r aelodau'n cael adroddiad arnynt ar yr adeg honno. Nododd fod yr holl waith maes gwerthuso wedi'i gwblhau, ond efallai y gallai'r camau gweithredu dilynol gael eu cynnwys mewn cynllun gweithredu ar gyfer y dyfodol.

EITEM 7: Cynllunio ar gyfer Addasiadau i'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol

44. Cyflwynodd Tom Smithson y papur a oedd yn amlinellu addasiadau posibl i raglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Roedd cyfle i'r aelodau nodi cynnwys y papur

hwn a chynnig unrhyw safbwyntiau cynnar ar ddatblygu cynigion. Byddai'r aelodau'n cael y cyfle i gytuno ar addasiadau gwirioneddol yng nghyfarfod y PMRh ym mis Medi 2017 pan oedd canlyniad y ceisiadau presennol am gynigion wedi dod i ben a phan fydd darlun cliriach o'r lefelau neilltuo o dan bob un o'r blaenoriaethau. Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i wneud sylwadau.

45. Roedd yr aelodau o'r farn bod unrhyw beth a oedd yn llwyddo i wella ansawdd ym maes datblygu economaidd yn beth da, felly roeddent yn cefnogi'r ffocws ar ansawdd. Cydnabu'r aelodau fod natur cyflogaeth a sgiliau'n newid ac nad oedd cyflogaeth yn golygu cyflogaeth sy'n gynaliadwy yn economaidd mwyach. Mae angen rhoi mwy o sylw i'r maes hwn gan y gallai arwain at faes tlodi newydd. Roeddent o blaid bod yn fwy hyblyg a newid y cydbwysedd i gynhyrchiant.
46. Gofynnodd aelod arall a allai unrhyw wersi a ddysgwyd o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar Raglen Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau gyfrannu at y drafodaeth. Cadarnhaodd Jane fod hwn yn faes polisi sy'n newid yn gyflym ac y bydd y Rhaglen Gwaith ac Iechyd yn effeithio ar brosiectau'n fwy uniongyrchol. Roedd hyn yn cael ei ystyried gan WEFO. Awgrymodd aelod arall y gallai myfyrio ar y newidiadau polisi mawr gael eu trafod yn y cyfarfod nesaf er mwyn darparu cyd-destun ehangach ar gyfer Cronfa Gymdeithasol Ewrop.
47. I gloi, dywedodd Tom fod WEFO yn bwriadu cyflwyno cynigion ffurfiol ar gyfer addasu rhaglenni i Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni ym mis Medi er mwyn cytuno arnynt cyn eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd.

EITEM 8: Meini Prawf Dethol y Rhaglen Datblygu Gwledig

48. Cyflwynodd Terri Thomas y ddau bapur a oedd yn cyfeirio at drydydd papur, sef WPMC (15)56 Meini Prawf Dethol – Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) 2014-2020 a gyflwynwyd i PMRh yn ei gyfarfod ar 11 Medi 2015. Nododd Atodiad 1 i'r papur hwnnw y meini prawf dethol sydd i'w defnyddio gan gynlluniau o dan Raglen Cymunedau Gwledig – Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru. Diwygiwyd y meini prawf ar gyfer rhai o'r cynlluniau yng nghyfarfodydd PMRh ym mis Chwefror, mis Medi a mis Rhagfyr 2016. Roedd y ddau bapur presennol yn gofyn am newid i'r meini prawf dethol ar gyfer y Cynllun Rheoli Cynaliadwy a gofynnodd Terri am farn yr aelodau ar y newid hwn.
49. Gofynnodd un aelod a fyddai'r meini prawf dethol newydd yn gymwys i brosiectau sy'n cael eu hystyried/yn yr arfaeth ar hyn o bryd. Nododd aelod arall nad oedd y polisi Adnoddau Cenedlaethol y cyfeirir ato yn y papur wedi'i gyhoeddi eto. Cadarnhaodd Terri y bydd y meini prawf dethol newydd yn gymwys ar gyfer y cylch nesaf ac eglurodd fod dyddiad cyhoeddi'r polisi Adnoddau Cenedlaethol wedi'i ohirio oherwydd cyfyngiadau cyn yr etholiad.

Eitem 9: Cynllun Cyfathrebu Blynnyddol y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

50. Gwahoddwyd Alison Sandford i gyflwyno cynllun gwybodaeth a chyhoeddusrwydd drafft 2017 i'r aelodau nodi ei gynnwys. Roedd y cynllun yn nodi'r prif flaenoriaethau a mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd ar gyfer

2017 a sut y byddent yn cael eu cyflwyno. Dangoswyd DVD o weithgarwch cyfathrebu WEFO ers y cyfarfod diwethaf i'r aelodau. Cyfyngwyd ar weithgarwch dros y pum mis diwethaf oherwydd y ddau gyfnod cyn etholiad, sy'n golygu bod cyfyngiadau ar WEFO o ran yr hyn roedd yn gallu ei hyrwyddo. Fodd bynnag, er gwaethaf 'BREXIT', roedd WEFO yn gwbl ymroddedig i hyrwyddo cynnydd ar y rhaglenni. Bydd WEFO yn cynnal digwyddiad gwybodaeth yn yr hydref er mwyn dathlu 60 mlynedd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

51. Ychwanegodd y Cadeirydd fod hon yn strategaeth hollbwysig a bod angen i WEFO achub ar bob cyfle i hyrwyddo ei chyflawniadau yn ystod y cyfnod ansicr sydd i ddod. Mewn trafodaeth, argymhellwyd y dylai fod dwy flaenoriaeth ar gyfer cyhoeddi cyllid yn y dyfodol, sef hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael o hyd i gael cyllid a rhoi mwy o bwyslais ar y straeon dynol er mwyn dangos sut mae'r Cronfeydd Strwythurol yn gwella bywydau pobl.
52. Canmolodd Guus WEFO ar ei gwefan, gan ddweud bod y safon uwchlaw gofynion y Comisiwn Ewropeaidd. Croesawodd y bwriad i ddatblygu cronfa ddata y gellir ei chwilio gan na fyddai neb yn croesawu'r dasg o chwilio drwy 80 neu fwy o dudalennau. Ychwanegodd fod llawer o Aelod-wladwriaethau eisoes wedi datblygu cronfeydd data y gellir eu chwilio ac awgrymodd y gallai WEFO ddysgu o'u profiadau.
53. Fel pwynt cysylltiedig, nododd Marek y dylai'r Strategaeth Gwybodaeth a Chyhoedduswyd ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig, yn unol â rheoliadau'r UE, hefyd gael ei chyflwyno i aelodau PMRh o leiaf unwaith y flwyddyn a gwahoddodd yr MA i'w chynnwys eleni fel pwynt ar gyfer un o gyfarfodydd PMRh nas cynhaliwyd eto.

Eitem 10: Cyflwyniad – Rhanbarth Canolbarth Cymru

54. Gwahoddwyd Mike Shaw a Claire Miles i wneud cyflwyniad ar waith eu Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol a'r Bartneriaeth Economaidd Rhanbarthol yn Rhanbarth Canolbarth Cymru. Mae Timau Ymgysylltu Rhanbarthol yn swyddogaeth newydd ar gyfer Rhaglenni 2014-2020 er mwyn sicrhau cysondeb rhanbarthol a bod Cronfeydd Strwythurol yn integreiddio â ffynonellau ariannu eraill ac yn eu hategu. Tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol:
 - Pwysleisiwyd pwysigrwydd dull partneriaeth i ystyried pa gynigion cyllido a oedd yn dod i'r amlwg a sefydlwyd gweithgorau traws-sector er mwyn ystyried cynigion. O ganlyniad, roedd y bartneriaeth economaidd yn y rhanbarth yn ehangu, gan arwain at drosolwg mwy strategol o weithgarwch rhanbarthol a dulliau prawfesur rhanbarthol gwell.
 - Y nod yw canolbwyntio ar dwf a ffyniant a chynyddu gweithgarwch economaidd y rhanbarth a chreu swyddi o ansawdd gwell. Cafodd nifer o fuddsoddiadau presennol eu trafod.
 - Erbyn 2019, nod y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yw adeiladu ar gryfderau a chronfa asedau sylweddol y rhanbarth a chael ei gydnabod fel Pwerdy Gwledig Cymru.

55. Mewn trafodaeth, gofynnodd yr aelodau a fu unrhyw broblemau wrth roi band eang cyflym iawn ar waith yn y rhanbarth. Ymatebodd Mike fod dwy agwedd; cwnmpas a defnydd. Roedd y darlun o ran cwnmpas yn amrywiol ac roedd yn syndod faint o'r rhanbarth a oedd eisoes wedi'i gwmpasu. Fodd bynnag, roedd rhai busnesau ffermio heb gysylltiad o hyd a byddai'r sector hwn yn benodol yn cael ei flaenoriaethu yn ymateb strategol y rhanbarth i Lywodraeth Cymru wrth iddi ymgynghori ar ei chynlluniau ar gyfer y dyfodol. O ran defnydd, roedd angen cynnal trafodaeth â busnesau lleol er mwyn eu helpu i ffynnu a thyfu. Mae angen cyfuno safleoedd busnes a chymorth busnes rhagweithiol. Nid oedd gan rai ystadau diwydiannol unrhyw wasanaeth ac mae ymdrechion i ddarparu gwasanaeth wedi bod yn ymatebol, gan ddibynnu ar fusnesau i fwrw ati eu hunain i sicrhau eu bod yn cael gwasanaeth.
56. Roedd sylwadau eraill yn cyfeirio at y pwyslais y mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith wedi'i roi ar ranbarthau'n cydweithio â'i gilydd a blaenoriaethu gwaith trawsffiniol. Awgrymodd yr aelodau y gall rhanbarth Canolbarth Cymru ddysgu gwersi o'r math hwn o ddull gweithredu.

Eitem 11: Diweddaru Polisi Rhanbarthol yn y Dyfodol

57. Rhoddodd Tom Smithson ddiweddariad i'r aelodau ar gynnydd ar ddatblygu polisi rhanbarthol yn y dyfodol. Tynnwyd sylw'r aelodau at y pwyntiau canlynol:
- Cyhoeddwyd papur polisi Llywodraeth Cymru, 'Brexit a Datganoli: Diogelu Dyfodol Cymru' ar 12 Mehefin. Hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o bapurau i ddilyn Diogelu Dyfodol Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn gynharach eleni. Disgwylir rhagor o bapurau cyn yr haf a fydd yn ymdrin ag ymfudo a dyfodol datblygu economaidd rhanbarthol.
 - Bydd y papur ar ddatblygu economaidd rhanbarthol yn adlewyrchu trafodaethau a gynhaliwyd â'r Grŵp Cynghori Ewropeaidd a PMRh hyd yn hyn a'r ffyrdd newydd o weithio a nodir yn Symud Cymru Ymlaen, diwygio Llywodraeth Leol, a dull Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith o ranbartholi datblygu economaidd.
 - Mae Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn llunio ei adroddiad drafft yn dilyn ei ymchwiliad i ddyfodol datblygu economaidd rhanbarthol. Mae nifer o aelodau PMRh wedi rhoi tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn.
 - Yn ddiweddar, cynhaliodd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a WEFO ymweliad astudio â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd er mwyn cynnal trafodaethau cynnar ynghylch datblygu dull datblygu economaidd rhanbarthol ar gyfer y dyfodol y tu allan i'r UE. Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn awyddus i weithio gyda ni ac rydym yn ystyried cyfleoedd i ddatblygu gwaith gyda'n gilydd. Hefyd, rhannodd arfer gorau ac astudiaethau achos yn seiliedig ar ei ymchwil. Mae'r ffocysau presennol yn cynnwys mynd i'r afael â chynhyrchiant isel, integreiddio meysydd polisi'n well mewn lleoedd (gan gynnwys lleoedd

gwledig), a'r angen am drefniadau llywodraethu effeithiol er mwyn i bartneriaethau aml-lefel weithio. Y brif neges oedd ei fod yn cydnabod bod angen pethau gwahanol mewn lleoedd gwahanol, ond â rhagofynion clir ar gyfer polisi effeithiol, yn ogystal â meysydd allweddol lle y gall effeithiau ar feysydd fel cynhyrchiant gael effeithiau mwy sylweddol (e.e. sgiliau, seilwaith a gwasgaru arloesedd ar gyfer meysydd sydd ar ei hôl hi).

- Mae'r CE yn cynnal Fforwm Cydlyniant yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 19 Mehefin. Bydd WEFO a CLILC yn bresennol fel rhan o gynrychiolaeth y DU. Mae gwersi y gellir eu dysgu o hyd o system yr UE, yn enwedig gan y byddwn yn parhau i fod yn aelodau gweithredol o Ewrop y tu allan i'r UE. Mae gennym lawer o arferion gorau a gwersi i'w rhannu â phartneriaid eraill hefyd.

Eitem 12: Unrhyw Fater Arall

58. Nododd aelod arall fod y cyfarfod wedi cyflwyno'n dda iawn y darlun cadarnhaol ar neilltuo'r rhaglenni, ond gofynnodd am ragor o fanylion mewn perthynas â'r cynnydd ar wariant. Esboniodd Peter Ryland fod WEFO wedi gwneud llawer o waith er mwyn cadarnhau pam mae oedi o ran buddiolwyr yn cyflwyno hawliadau/cyflawni proffiliau gwariant. Cafodd y materion canlynol eu nodi:

- Mae'r gyfundrefn newydd ar allbynnau a'r hyn roedd angen ei ddangos fel tystiolaeth o gyflawniad at ddibenion archwilio wedi peri heriau i'r buddiolwyr, er yr ymddengys fod hyn wedi'i ddatrys bellach.
- Mae'r gyfres o weithdai buddiolwyr a gynhaliwyd gan WEFO hefyd wedi cael gwared ar bryderon gweithrediadau ac roedd yn amlwg y bu rhesymau sefydliadol mewnol hefyd i fuddiolwyr ohirio rhai hawliadau.

59. Diolchodd Peter i'r aelodau am godi'r mater hwn a phwysleisiodd eto y dylai'r aelodau fynd ati i hyrwyddo'r neges bod angen derbyn hawliadau'n brydlon gan ei bod yn hollbwysig bod gweithrediadau bellach yn cyflwyno ac yn cyflawni lefelau neilltuo gwariant. Canmolodd un aelod y rheolwyr a'r tîm dilysu am y cymorth yr oeddent wedi'i roi i ddatrys materion.

60. Ar ran PMRh, diolchodd y Cadeirydd i Damien am ei gyfraniad sylweddol dros y blynyddoedd ac am ei gymorth enfawr a'i uniondeb personol sydd wedi bod yn eithriadol. Atebodd Damien drwy ddweud, dros y 12 mlynedd roedd wedi bod yn WEFO, yr oedd wedi treulio 10 ohonynt fel Prif Weithredwr Gweithredol, ei fod wedi cael y pleser o weithio gyda llawer o Gadeiryddion, aelodau a staff medrus a thalentog. Ychwanegodd fod gan Gymru hanes da o weithio mewn partneriaeth a bod PMRh yn brawf o hynny. Diolchodd i'w gydweithwyr yn y CE, gan gofio'r amser a dreuliwyd ganddo ar secondiad i'r CE, a oedd yn ei alluogi i fod yn ystyriol o'r angen i gael y cydbwysedd yn iawn. Roedd bellach yn edrych ymlaen at ei ymddeoliad.

Cynhelir cyfarfod nesaf PMRh ddydd Gwener 15 Medi 2017 yn swyddfa Llywodraeth Cymru ym Merthyr Tudful.

Ysgrifenyddiaeth PMRh

Mehefin 2017

**Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014 – 2020 PMRh Cymru
16 Mehefin 2017**

Swyddfa Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful

Cadeirydd – Julie Morgan (AC)

Enwebir yr aelodau ar sail gynrychioliadol, o bartneriaid a chyrff statudol:

Phil Fiander	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)
Lowri Gwilym	Llywodraeth Leol (CLILC)
Rhian Jardine	Cynaliadwyedd Amgylcheddol (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Rachel Garside-Jones	Llywodraeth Cymru (Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol)
Rachel Lewis-Davies	Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
Rudi Plaut	Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru (Commerce Cymru)
Derek Walker	Canolfan Cydweithredol Cymru
Tom Whyatt	Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru (Commerce Cymru)
Rebecca Williams	Yr Economi Wledig (Cymdeithas Siroedd, Tir a Busnesau)

Aelodau wedi'u dethol drwy'r broses Penodiadau cyhoeddus:

David (Dai) Davies
<u>Grahame Guilford</u>
<u>Joy Kent</u>
Sian Price
<u>Beth Winkley</u>

Cynghorwyr:

Guus Muijzers	Comisiwn Ewropeaidd, Swyddog Desg y DU sy'n gyfrifol am Raglenni 2014-2020, DG Regio
Marek Beran	Comisiwn Ewropeaidd, DG AGRI

Awdurdodau Rheoli Rhaglenni:

Sioned Evans	Prif Weithredwr Newydd, WEFO (ERDF, ESF)
Jane McMillan	Pennaeth Rhaglenni ESF
Damien O'Brien	Prif Weithredwr sy'n Ymadael, WEFO (ERDF, ESF)
Chriss O'Connell WEFO	Pennaeth y Themâu Trawsbynciol, WEFO
Ian Owen	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid WEFO
Sue Price	Pennaeth Rhaglenni ERDF
Peter Ryland	Prif Swyddog Gweithredu WEFO (ERDF, ESF)
Terri Thomas	Pennaeth yr Is-adran Datblygu Gwledig
Alison Sandford	Pennaeth Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol WEFO
Tom Smithson	Pennaeth Strategaeth WEFO
Rhiannon Clancy	Ysgrifenyddiaeth
Angela Griffin	Ysgrifenyddiaeth

Sioned Phillips	Ysgrifenyddiaeth
-----------------	------------------

Eilyddion:

Barbara Burchell	Llywodraeth Leol (CLILC)	Ar gyfer y Cyng. Ronnie Hughes
Bethan Owen	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	Ar gyfer David Blaney
Dr Gary Reid	Addysg Uwch Cymru	Ar gyfer yr Athro David Shepherd
Yr Athro Steve Wilks	Prifysgol Abertawe	Ar gyfer yr Athro Richard Davies

Cyflwynwyr Gwadd:

Claire Miles	Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru
Mike Shaw	Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru

Ymddiheuriadau:

Dr David Blaney	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Paul Byard	Busnes a Menter (Commerce Cymru)
Julie Cook	TUC Cymru
Peter Crews	Undeb Llafur (TUC Cymru)
Iestyn Davies	Addysg Bellach (Colegau Cymru)
Yr Athro Richard Davies	Penodai Cyhoeddus
Joanna Gawrylczyk-Malesa	Comisiwn Ewropeaidd, Swyddog Desg ar gyfer Rhaglenni ESF, DG Employ
Rob Halford	Pennaeth Cynllunio a Strategaeth, WEFO
Duncan Hamer	Llywodraeth Cymru (Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol)
Y Cyngorydd Ronnie Hughes	Llywodraeth Leol (CLILC)
Jocelyn Llewellyn	Canolfan Byd Gwaith
Lowri Owain	LEADER
Yr Athro David Shepherd	Addysg Uwch Cymru
Andrew Slade	Cyfarwyddwr, yr Adran Amaeth, Bwyd a'r Môr
Arfon Williams	Cyrff Anllywodraethol Amgylcheddol (Cyswllt Amgylchedd Cymru/RSPB)

PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020

ADRODDIAD MONITRO'R RHAGLENNI

Trosolwg

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd: Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Rhaglenni ESF a Rhaglenni ERDF ac ESF Dwyrain Cymru. Ceir adroddiadau ar gronfeydd penodol yn Atodiadau 1 i 3. Mae'r holl ddata'n gyfredol ar 31/07/2017. Y cyfraddau cynllunio a ddefnyddir yn yr adroddiad yw £1:€1.17 ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a £1:€1.25 ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Mae cyfeiriadau at gyfarfod blaenorol Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni drwy'r ddogfen gyfan yn cyfeirio at y cyfarfod ym mis Mehefin 2017.

Y sefyllfa gyffredinol

- Mae 159 o weithrediadau gwerth £2,567m (gan gynnwys arian yr UE gwerth £1,363m), yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd gan y Cronfeydd Strwythurol a byddant yn cynorthwyo dros 40,900 o fusnesau ac yn rhoi cymorth hyffordiant/cyflogaeth i fwy na 402,600 o bobl.
- Mae Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020 yn cefnogi cyfanswm o 6,877 o gontractau amaeth-amgylcheddol ar hyn o bryd, sy'n cwmpasu 676,469 hectar ynghyd â 593 o gontractau organig newydd sy'n cwmpasu 72,562 hectar. Crëwyd 436ha o goetir newydd trwy Glastir – Creu Coetir


Cynnydd ariannol

Neilltuo cyllid


- O dan Raglenni ERDF, mae cyfanswm o £1,401m wedi cael ei neilltuo ar hyn o bryd (73% o gyfanswm y dyraniad), y mae £733m ohono yn arian yr UE (61% o ddyraniad yr UE).
- O dan Raglenni ESF, mae cyfanswm o £1,166m wedi cael ei neilltuo ar hyn o bryd (91% o gyfanswm y dyraniad), y mae £631m ohono yn arian yr UE (73% o ddyraniad yr UE).
- O dan Gynllun Datblygu Gwledig 2014-2020, mae cyfanswm o £787m (102% o werth y rhaglen) wedi ei neilltuo, y mae £521m ohono yn arian yr UE.

Gwariant

- Mae tua £205m o gyfanswm y gwariant wedi'i gofnodi o dan Raglenni ERDF, y mae £99m ohono yn arian yr UE.
- Mae tua £158m o gyfanswm y gwariant wedi'i gofnodi o dan Raglenni ESF, y mae £103m ohono yn arian yr UE.
- Mae gwariant o gwmpas £104m wedi'i gofnodi yng Nghynllun Datblygu Gwledig 2014-2020, y mae £76m ohono yn arian yr UE.

Siart 1: Cyfanswm Gwariant Rhaglenni a Neilltuwyd / a Wariwyd

Ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 mae Cyfanswm Gwariant y Rhaglen yn cynnwys Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig ynghyd â chyllid domestig Llywodraeth Cymru. Ar gyfer y Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol mae'n cynnwys ERDF neu ESF ynghyd ag arian cyfatebol.

Siart 2: Cronfeydd yr UE a Neilltuwyd / a Wariwyd (ERDF / ESF / EAFRD)

Data ar Allbynnau

Dangosydd	Targed	Rhagolwg Prosiect	Profiled to date	Cyflawnwyd hyd yn hyn
ERDF				
Mentrau a gefnogir	45,512	40,944	7,068	5,193
<i>o rhain</i>			-	
Mentrau a grëwyd	7,400	10,035	1,627	1,622
Cynydd cyflogaeth yn y mentrau a gefnogir	26,980	31,841	5,205	2,313
Maint o gyllid ymchwil a sicrhawyd	£230m	£168m	40	£35m
Cynnydd yn lefel allforio	£233m	£215m	35	£10m
Capasiti ychwanegol o gynhyrchu ynni adnewyddadwy	28	1	-	-
Nifer y cartrefi â dosbarthiad defnydd o ynni gwell	9,700	3,825	-	-
Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a grëwyd neu sydd wedi gwella	2,920,000 vehicle km	-	-	-
ESF				
Pobl a gynorthwyir	434,100	402,606	110,442	94,984
<i>o rhain</i>			-	
Pobl ifanc a gynorthwyir	150,000	104,639	32,550	25,191
Pobl a gefnogir i gael gwaith	40,642	50,173	8,176	4,957
Pobl sy'n ennill cymwysterau	194,633	227,161	29,755	35,915
EAFRD				
Ardal ffisegol a gefnogir	688,000	528,010	-	676,469
Pobl dan hyfforddiant	13,000	13,500	-	-
Taliadau amaethyddol a gefnogir	3,773	542	-	553

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 31/07/2017

Atodiadau**Atodiad 1: Diweddariad ERDF****Atodiad 2: Diweddariad ESF****Atodiad 3: Diweddariad WGRC-RDP 2014-2020****Atodiad 4: Cronfeydd Strwythurol: Rhestr gweithrediadau a gymeradwywyd****Atodiad 5: Fframwaith perfformiad**

Adran 1: Rhaglenni ERDF: Ymrwymiad

Mae'r adran hon yn manylu ar y cynnydd ariannol cyfredol o dan y Rhaglenni ERDF, ac yn rhoi trosolwg cyffredinol hefyd o'r Rhaglenni a'r wybodaeth sydd wedi eu blaenoriaethu.

Dengys Tabl 1 nifer a swm y Grantiau UE sydd wedi eu neilltuo i Weithrediadau cymeradwy o dan Raglenni ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru.

Tabl 1: Grant yr UE sydd wedi ei Neilltuo yn ôl Rhaglen a Blaenoriaeth: Gweithrediadau Cymeradwy

£ Miliynau

Gweithrediadau Blaenoriaeth a gymeradwywyd	Dyraniad		Wedi'i neilltuo				Cyfran o'r dyraniad			
	Cyfanswm ¹	Grant yr UE ¹	Cyfanswm ²			Grant yr UE ²	Cyfanswm ³			Grant yr UE ³
ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd										
1	18	387	256	349	(90%)	204	24	(6%)	14	(6%)
2	7	285	178	276	(97%)	146	64	(22%)	28	(16%)
3	8	210	146	79	(38%)	49	13	(6%)	7	(4%)
4	16	653	428	435	(67%)	207	35	(5%)	23	(5%)
5	7	28	21	27	(100%)	19	3	(12%)	2	(11%)
Cyfanswm	56	1,562	1,029	1,166	(75%)	625	139	(9%)	73	(7%)
ERDF Dwyrain Cymru										
1	8	152	76	138	(91%)	60	21	(14%)	7	(9%)
2	7	68	34	63	(93%)	32	34	(49%)	13	(37%)
3	1	38	19	7	(19%)	4	-	(0%)	-	(0%)
4	2	82	41	19	(23%)	9	11	(13%)	6	(14%)
5	6	7	3	7.1	(102%)	2.9	1	(9%)	0	(9%)
Cyfanswm	24	348	174	234	(67%)	107	67	(19%)	25	(15%)
Cyfanswm ERDF	80	1,909	1,202	1,401	(73%)	732	205	(11%)	99	(8%)

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2017

¹ Yn seiliedig ar gyfradd gyfnewid o £1:€1.17

² Mae'r canrannau'n dangos y swm sydd wedi'i neilltuo fel cyfran o'r dyraniad

³ Mae'r canrannau'n dangos y gwariant fel cyfran o'r dyraniad

Diweddariad Cyffredinol y Rhaglen

Mae'r ddwy Raglen ERDF yn parhau i wneud cynnydd da, wrth i 80 o weithrediadau gael eu cymeradwyo gan neilltuo grantiau o £733 miliwn, sy'n cynrychioli 61% o werth y rhaglenni. Mae grantiau'n parhau i gael eu neilltuo'n gyson ac mae dilyniant iach a diddordeb parhaol yn y rhaglenni a gynhelir.

Hyd yn hyn mae £ 73m (7% GCC) a £ 26m (15% DC) wedi'i dalu i noddwyr prosiectau. Ar hyn o bryd mae taliadau yn aros am awdurdodiad WEFO sy'n gyfystyr â £19m a £ 3m ar gyfer Gorllewin Cymru a Dwyrain Cymru yn y drefn honno; Gan ystyried y rhain, mae'r taliadau i noddwyr yn codi i £ 92m (10%) yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a £ 29m (17%) yn Dwyrain Cymru.

Mae'r ffigurau gwariant hyn wedi trosi i gronfa arian o'r Comisiwn Ewropeaidd o 7% o'r dyraniad grant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 16% o'r dyraniad grant yn Dwyrain Cymru, sydd lawer uwch na chyfartaledd yr UE o 4%. Mae'r Rhaglenni i gyd wedi cwrdd â thargedau N + 3 2017 ac maent ar y trywydd iawn i fodloni targedau 2018.

Adran 2: Cynnydd yn ôl yr Echelin Blaenoriaeth**Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesi****Tabl 2: Grant yr UE sydd wedi'i neilltuo yn ôl Amcan Penodol**

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd			Dwyrain Cymru		
	Gweithrediadau	Dyranïad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF	Gweithrediadau	Dyranïad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF
AP1.1: Adnoddau Ymchwil	8	£102m	£96m 94%	4	£29m	£22m 76%
AP1.2: Masnacheiddio	10	£153m	£108m 70%	4	£47m	£38m 81%
Cyfanswm Blaenoriaeth 1	18	£256m	£204m 80%	8	£76m	£60m 79%

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2017

Cymeradwyaethau ers y Pwyllgor Monitro Rhaglenni diwethaf

Dim cymeradwyaethau ers y Pwyllgor Monitro Rhaglenni blaenorol.

Mae cynnydd da yn cael ei wneud ar y 17 o weithrediadau a ddewiswyd i symud ymlaen i'r cam cynllunio busnes ffurfiol yn dilyn galwad 1.2 am Amcanion Penodol. Mae'r cynigion hyn yn datblygu'n dda a disgwylir y cânt eu cymeradwyo'n fuan iawn. Rhagwelir y bydd y Flaenoriaeth Ymchwil ac Arloesi yn ymrwmo'r holl arian sydd ar gael ac mae WEFO yn ymwybodol o'r galw am ragor o gyllid, yn enwedig ym maes meithrin gallu. Parha WEFO i adolygu gweithrediadau presennol, ochr yn ochr â pherfformiad portffolio Blaenoriaeth 1, i sicrhau bod unrhyw ddifffyg ymrwymadau posibl yn cael eu nodi'n gynnar fel bod modd ailgylchu'r arian. Bydd WEFO yn ystyried cyllid a thargedau yn rhan o adolygiadau addasu arfaethedig y rhaglen.

Tabl 3: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma
AP1.1 Gwella llwyddiant sefydliadau ymchwil yng Nghymru yn denu cyllid ymchwil cystadleuol a phreifat	Swm y cyllid ymchwil a sicrhawyd	£165m	£119m	£15m	£12m	£65m	£49m	£24m	£23m
	Nifer y mentrau sy'n cydweithio â sefydliadau ymchwil a gynorthwyir	160	272	18	18	90	69	4	-
	Nifer y gwell cyfleusterau seilwaith ymchwil	6	7	-	-	2	2	1	1
	Nifer yr ymchwilwyr newydd mewn endidau a gynorthwyir	470	363	29	16	290	99	42	36
	Nifer yr ymchwilwyr yn gweithio mewn gwell cyfleusterau seilwaith ymchwil	200	365	-	-	110	66	58	38
AP1.2 Cynyddu cyfraddau troi llwyddiannus prosesau ymchwil ac arloesedd yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol newydd a gwell, yn arbennig drwy well proses trosglwyddo technoleg o SAUau	Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r farchnad	490	134	1	5	300	73	-	-
	Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni	725	317	25	11	440	113	-	-
	Nifer y mentrau sy'n cydweithio â sefydliadau ymchwil a gynorthwyir	1,212	344	61	26	715	98	-	-
	Nifer y mentrau sy'n cael grantiau	520	330	60	-	320	300	37	-
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol	3,750	806	120	91	2,245	304	40	24
	Nifer y mentrau newydd a gynorthwyir	30	29	2	2	20	6	-	-
	Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus mewn prosiectau arloesedd neu ymchwil a datblygu	€42.8m	€33.4m	€5.6m	€0.0m	€26.2m	€19.1m	€2.6m	€0.0m
	Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir	1,125	346	3	-	670	120	-	-
	Nifer y patentau sydd wedi eu cofrestru ar gyfer cynnyrch	519	155	10	5	315	56	1	-
	Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd	n/a	48	-	-	n/a	-	-	-
	Mentrau sy'n mabwysiadu:								
	- neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	956	1	1	-	515	-	-	-
	- neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro	956	1	1	-	515	-	-	-

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2017

Ceir rhai amrywiadau yn y Blaenoriaethau Ymchwil ac Arloesi o'u cymharu â'r hyn a ddisgwylir o ganlyniad i'r dyraniad ariannol a neilltuwyd. Er hynny, mae'n rhaid cydnabod y bydd AP1.1 yn araf i sicrhau canlyniadau oherwydd ei bwyslais ar feithrin gallu, sy'n cynnwys seilwaith cysylltiedig. Mae'r newid yn y dull targedu ar gyfer y Flaenoriaeth hon – o'i gymharu â rhaglenni blaenorol (a ddefnyddiwyd fel sylfaen i osod targedau rhaglenni) – yn effeithio'n benodol ar yr amcan masnacheiddio (AP1.2). Mae rhaglenni 2014-2020 yn ceisio targedu rhagor o gwmnïau sy'n cynnwys 10 neu fwy o weithwyr, ac yn rhoi rhagor o bwyslais ar fusnesau bach sydd â'r potensial i dyfu i'r maint hwnnw neu fwy. Mae gan y dull gweithredu hwn y potensial i gael mwy o effaith economaidd, ond bydd yn golygu llai o bwyslais ar nifer y busnesau a gefnogir. Mae'r dangosyddion hefyd yn adlewyrchu'r pwyslais ar deilwra cefnogaeth fwy dwys yn well, yn ystyried systemau arloesi yn gyffredinol mewn gwahanol fusnesau/clystyrau (yn cyfrif pob menter lle cyflwynir cynhyrchion newydd er enghraifft) yn hytrach na nifer y mentrau arloesi (gall hyn arwain at lai o bwyslais ar effaith y trosiant / defnyddioldeb).

Mae'r wybodaeth yn Nhabl 3 uchod yn deillio o weithrediadau cymeradwy yn unig ac nid yw felly yn ystyried allbynnau disgwylidig y gweithrediadau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Felly, oherwydd bod gweithrediadau'n cael eu datblygu yn dilyn yr alwad ddiweddar, rydym ni'n disgwyl y bydd y rhan fwyaf o ffigurau Rhagolwg Prosiect AP 1.2 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a Dwyrain Cymru yn cynyddu'n sylweddol – gan fwy na dyblu ym mwyafrif yr achosion. Er enghraifft, yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd disgwylir y bydd y rhagolwg prosiect ar gyfer y *cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni a newydd i'r farchnad* yn agos at y Targed Blaenoriaeth ac, yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru, disgwylir y bydd y *buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus* yn fwy na'r Targed Blaenoriaeth. Disgwylir y bydd *nifer y mentrau sy'n cydweithio â sefydliadau ymchwil a gynorthwyr* yn uwch, ac mewn rhai achosion, yn fwy na'r Targed Blaenoriaeth oherwydd y cafwyd eglurhad ynglŷn â diffiniad y dangosydd sy'n caniatáu cyfrif pawb sy'n rhan o'r cydweithio.

Blaenoriaeth 2: Cystadleuaeth BBaCh**Tabl 4: Grant yr UE sydd wedi'i neilltuo yn ôl Amcan Penodol**

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd			Dwyrain Cymru		
	Gweithrediadau	Dyranïad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF	Gweithrediadau	Dyranïad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF
AP2.1: Mynediad i Gyllid	1	£59m	£75m 128%	1	£9m	£10m 107%
AP2.2: Busnesau newydd	1	£15m	£19m 127%	1	£4m	£6m 176%
AP2.3: Defnyddio TGCh a manteisio arni	1	£9m	£5m 56%	1	£1m	£2m 122%
AP2.4: Twf Cyflogaeth	3	£78m	£27m 35%	3	£17m	£8m 48%
AP2.5: Cyllid Cyfalaf Risg	1	£17m	£21m 122%	1	£3m	£6m 197%
Cyfanswm Blaenoriaeth 2	7	£178m	£146m 82%	7	£34m	£32m 93%

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2017

Cymeradwyaethau ers y Pwyllgor Monitro Rhaglenni diwethaf

Dim cymeradwyaethau ers y Pwyllgor Monitro Rhaglenni blaenorol.

Mae'r flaenoriaeth wedi ei sefydlu ac mae llawer yn cymryd rhan yn y ddwy raglen gyda phortffolio cyfannol wedi ei ddatblygu drwy ganolbwyntio ar weithrediadau sy'n llunio 'Teulu Busnes Cymru', sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, Cyllid Cymru a CGGC. Nid ymddengys fod unrhyw fwlch penodol yn y ddarpariaeth a phrin iawn yw'r diddordeb yn y syniadau cymorth busnesau arbenigol a gynigir.

Yn lansiad Banc Datblygu Cymru, cyhoeddwyd y byddai £35 miliwn ychwanegol gan yr ERDF ar gael ar gyfer Cronfa Fusnes Cymru (£30 miliwn i Orllewin Cymru a'r Cymoedd a £5 miliwn i Dwyrain Cymru). Mae posibilrwydd buddsoddi ymhellach yng Nghronfa Fusnes Cymru i gynnwys rhai o'r cronfeydd anghymwys ac fe roddir mwy o ystyriaeth i hyn yn ystod y misoedd nesaf.

Mae Cronfa Fusnes Cymru yn parhau i wneud cynnydd da ers ei lansiad ym mis Medi 2016. Erbyn diwedd mis Gorffennaf 2017, buddsoddiwyd £31 miliwn o'r ERDF mewn 69 BBaCh, gan gefnogi buddsoddiad o £80 gan y sector preifat. Arweiniodd hyn at gyfanswm buddsoddiad o dros £110 miliwn, sydd y tu hwnt i'r proffil. Ni chaiff cynnydd mewn cyflogaeth ei fesur tan 12 mis ar ôl y buddsoddiad, felly bydd y ffigurau hyn yn cael eu cynnwys yn ddiweddarach.

O ystyried natur sefydlog y flaenoriaeth yn y ddwy raglen, canolbwyntir yn bennaf ar ddarparu. Yn hyn o beth, mae WEFO yn parhau i fonitro'r cynnydd, gan roi sylw arbennig i gyflwyno a chofnodi'r dangosyddion. Bydd hyn yn arwain at adolygiad canol tymor o'r gweithrediadau a ariennir o AP2.2, AP2.3 ac AP2.4.

Cynhaliodd WEFO sesiwn drafod yn cynnwys yr aelodau sy'n ffurfio Teulu Busnes Cymru ar gyfer arweinwyr gweithrediadau, asiantau darparu, CLILC a'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol ym mis Medi 2016, ac mae ail ddigwyddiad yn cael ei gynllunio ar gyfer mis Hydref 2017.

Tabl 5: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma
AP2.1 Cynyddu faint o gyllid sydd ar gael i BBaChau, yn fusnesau newydd ac yn fusnesau sy'n ehangu	Buddsoddi mewn mentrau	£91.6m	£149.6m	£12.4m	£31.0m	£25.9m	£22.3m	£1.8m	£60.8m
	Nifer y mentrau sy'n cael grantiau	160	-	-	-	45	-	-	-
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau	235	228	19	32	65	31	2	20
	Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb cymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Nad ydynt yn grantiau	€132.0m	€101.0m	€8.4m	€20.2m	€37.3m	€16.8m	€2.4m	€58.3m
	Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyr	2,300	1,954	-	-	650	265	-	-
	Mentrau sy'n mabwysiadu:								
	- neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro	190	-	-	-	60	-	-	-
	- neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	190	-	-	-	25	-	-	-
AP2.2 Cynyddu nifer y BBaCh newydd drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth ym maes entrepreneuriaeth	Nifer y mentrau newydd a gynorthwyr	5,150	6,000	995	925	2,200	4,000	630	695
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol	275	-	-	-	120	-	-	-
	Unigolion sy'n cael cymorth	14,350	6,000	-	854	6,200	4,000	-	466
	Unigolion sy'n cael cymorth - Benywaidd	7,300	-	-	360	3,100	-	-	190
	Unigolion sy'n cael cymorth - Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig	375	-	-	39	445	-	-	16
	Unigolion sy'n cael cymorth - Pobl anabl	3,650	-	-	6	1,350	-	-	3
	Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyr	8,800	10,250	1,870	734	3,800	6,750	1,230	230
	Mentrau sy'n mabwysiadu:								
	- neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro	2,710	1,500	273	-	465	1,000	182	-
	- neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	2,710	1,500	273	-	1,165	1,000	182	-

¹ Mae'r ffigurau a gyflawnwyd hyd yma o dan AP2.2 ac AP2.4 yn ffigurau dros dro sydd yn dal i gael eu dilysu

WPMC(17)103

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma
AP2.3 Cynyddu'r defnydd o rwydweithiau NGA a seilwaith TGCh gan BBaChau	Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni	1,480	1,480	110	-	400	400	30	-
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol	3,450	3,823	706	170	900	1,094	218	230
AP2.4 Cynyddu twf y BBaChau hynny â photensial i dyfu, yn enwedig drwy gael mynediad i farchnadoedd newydd (domestig a rhyngwladol)	Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir	6,450	7,215	1,273	1,075	2,550	4,606	829	274
	Nifer y mentrau sy'n cael grantiau	40	30	3	-	10	15	2	-
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau	330	-	-	-	115	-	-	-
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol	13,650	12,400	2,411	1,701	5,400	8,170	1,574	1,226
	Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Grantiau	€4.3m	0	0	-	€2.2m	0	0	-
	Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Nad ydynt yn grantiau	€6.6m	-	-	-	€3.4m	-	-	-
	Cynnydd mewn lefelau allforio	£167.1m	£130.0m	£21.5m	£8.4m	£65.9m	£85.0m	£13.0m	£1.7m
	Mentrau sy'n mabwysiadu:								
	- neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro	8,700	5,000	812	19	1,300	3,300	659	5
	- neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	8,700	5,000	812	25	3,200	3,300	659	10
AP2.5 Mynd i'r afael â methiannau'r farchnad o ran argaeledd cyllid, yn enwedig cyfalaf risg, fel y gall BBaChau Cymreig gyflawni arloesedd a masnacheiddio ymchwil a datblygu	Buddsoddi mewn mentrau	£26.5m	£41.4m	£5.1m	£2.7m	£7.2m	£12.7m	£1.0m	£16.0m
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau	90	49	-	6	25	-	-	11
	Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Nad ydynt yn grantiau	€23.8m	€27.9m	€3.5m	€2.0m	€14.1m	€9.7m	€0.8m	€12.9m
	Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir	490	265	-	-	145	70	-	-
	Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni	20	24	-	-	5	6	-	-
	Mentrau sy'n mabwysiadu:								
	- neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro	45	-	-	-	5	-	-	-
	- neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	45	-	-	-	13	-	-	-

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2017

¹ Mae rhai o'r ffigurau a gyflawnwyd hyd yma yn ffigurau dros dro sydd yn dal i gael eu dilysu

Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Arbed Ynni**Tabl 6: Grant yr UE sydd wedi'i neilltuo yn ôl Amcan Penodol**

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF		Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF	
AP3.1: Ynni'r Môr	6	£86m	£23m	26%	n/a	n/a	n/a	n/a
AP3.2: Ynni Cymunedol (AP3.1 Dwyrain Cymru)	1	£20m	£7m	33%	0	£4m	£0m	0%
AP3.3: Arbed Ynni (AP3.2 Dwyrain Cymru)	1	£40m	£20m	49%	1	£15m	£4m	23%
Cyfanswm Blaenoriaeth 3	8	£146m	£49m	33%	1	£19m	£4m	19%

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2017

Cymeradwyaethau ers y Pwyllgor Monitro Rhaglenni diwethaf

Gweithrediadau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ERDF	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ERDF
META (Pembrokeshire Coastal Forum)		1.8		1.1
Caerau Smart Heating (Bridgend CBC)		9.4		6.5
Morlais (Menter Môn)		5.6		4.2

Mae'r Flaenoriaeth hon yn faes arloesol o'r rhaglenni ac er bod gwneud cynnydd yn fwy heriol nag a fwriadwyd, mae cynnydd yn digwydd; yn enwedig wrth weithio gyda datblygwyr sy'n awyddus i ddefnyddio dyfroedd ledled Cymru i roi eu dyfeisiau ynni tonnau a'r llanw ar waith. Mae trafodaethau cyn cynllunio â datblygwyr yn parhau ac mae llif iach o brosiectau ynni'r môr posibl. Er bod natur dechnolegol y gweithrediadau morol hyn môr yn cymryd amser i'w datrys, mae'r galw posibl am arian yn galonogol. Cymeradwywyd dau brosiect Ynni Morol, sef Ardal Brofi Ynni Morol (META) sy'n safle meithrin ar gyfer cynnal profion dros dro ar ddyfeisiau tonnau ac fe roddwyd cymeradwyaeth i gefnogi'r broses o ganiatáu Parth Arddangos Morlais.

Nid oes cymaint o weithgarwch yn bosib yn rhaglen Dwyrain Cymru, oherwydd nad yw cynhyrchu ynni morol yn weithgarwch cymwys. O ganlyniad i hyn, mae rhaglen Dwyrain Cymru yn ddibynnol ar brosiectau a fydd yn cefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa gymunedol fach a chynyddu effeithlonrwydd ynni stoc dai bresennol Cymru yn enwedig mewn ardaloedd â thlodi tanwydd difrifol.

Lansiwyd yr Alwad am Ynni Cymunedol ar 10 Ebrill 2017, a chynhaliwyd tair sesiwn galw heibio yng Ngogledd, Canolbarth a De Cymru yn ystod mis Mai a mis Mehefin. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 30 Mehefin 2017. Derbyniwyd 43 o gynigion, 7 ar gyfer Dwyrain Cymru a 35 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae'r

cynigion a dderbyniwyd bellach yn cael eu hasesu a hysbysir yr ymgeiswyr a ydynt wedi eu derbyn i'r cam cynllunio busnes erbyn 30 Medi. Gallai'r ailwerthusiad diweddar o gyfrifon trethi busnes effeithio'n andwyol ar nifer y ceisiadau gan grwpiau Ynni Cymunedol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn ystyried yr achos ar gyfer cymorth penodol, ond mae'r ffaith y derbyniwyd 43 o gynigion yn parhau i fod yn galonogol. Yn y cyfamser, cynigwyd grant i gynllun Gwres Lleol Caerau, sef prosiect a ddatblygwyd cyn y cyhoeddwyd yr Alwad am gynlluniau cymunedol ar raddfa fach. Mae hwn yn gynllun arloesol sy'n troi dŵr mwyngloddio metel yn wres.

Tabl 7: Cynnydd yn erbyn dangosyddion [Type a quote from the document or the summary of an interesting point. You can position the text box anywhere in the document. Use the Drawing Tools tab to change the formatting of the pull quote text box.]

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma
AP3.1 Cynyddu nifer y dyfeisiau ynni tonnau a llanw a brofir yn nyfroedd Cymru ac oddi ar yr arfordir, gan gynnwys araeau aml-ddyfais, a thrwy hynny sefydlu Cymru fel canolfan cynhyrchu ynni morol	Gallu ac adnoddau ychwanegol cynhyrchu ynni adnewyddadwy	20	1	-	-	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cynlluniau paratoi safle cynorthwyo ynni	2	2	-	-	n/a	n/a	n/a	n/a
	Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd	8	3	-	-	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cynlluniau ynni cymunedol	37	-	-	-	3	-	-	-
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol	150	-	-	-	70	-	-	-
	Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd	75	-	-	-	35	-	-	-
(AP3.1 Dwyrain Cymru)	Gallu ac adnoddau ychwanegol cynhyrchu ynni adnewyddadwy	n/a	n/a	n/a	n/a	8	-	-	-
	Cynlluniau paratoi safle cynorthwyo ynni	n/a	n/a	n/a	n/a	1	-	-	-
	Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd	n/a	n/a	n/a	n/a	3	-	-	-
AP3.3 Cynyddu effeithlonrwydd ynni stoc dai bresennol Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd tlodi tanwydd	Nifer yr aelwydydd â dosbarthiad gwell o ran y defnydd o ynni	5,500	3,060	-	-	4,200	765	-	-
	Amcangyfrif o'r gostyngiad mewn nwyon tŷ gwyrdd	10	-	-	-	5	-	-	-

(AP3.2 Dwyrain Cymru)
Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2017

Mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i wneud unrhyw benderfyniadau cadarn ynghylch cyflwyno'r dangosyddion, ond mae'r arwyddion yn ymddangos yn gadarnhaol ar y cyfan.

Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygiad Trefol**Tabl 8: Grant yr UE sydd wedi'i neilltuo yn ôl Amcan Penodol**

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd			Dwyrain Cymru		
	Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF	Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF
AP4.1: Ffyrdd	3	£91m	£64m 71%	nô	n/a	n/a n/a
AP4.2: Trafnidiaeth Gyhoeddus (AP4.1 Dwyrain Cymru)	2	£147m	£19m 13%	2	£31m	£0m 0%
AP4.3: TGCh (AP4.2 Dwyrain Cymru)	2	£48m	£20m 42%	r/	£10m	£9m 92%
AP4.4: Safleoedd Strategol	9	£143m	£104m 73%	a	n/a	n/a n/a
Cyfanswm Blaenoriaeth 4	16	£428m	£207m 48%	2	£41m	£9m 23%

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2017

Cymeradwyaethau ers y Pwyllgor Monitro Rhaglenni diwethaf

Gweithrediadau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ERDF	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ERDF
Llangefni Strategic Employment Site (Isle of Anglesey County Council)	£8.6m	£4.2m		
Harbourside Strategic Employment Site (Neath Port Talbot County Borough Council)	£5.3m	£3.5m		
Penmaen Road Employment Site Conwy Morfa (Conwy County Borough Council)	£3.6m	£1.5m		

Mae rhaglenni Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru yn cydnabod bod buddsoddiad i wella cysylltedd yn rhagofyniad angenrheidiol. Er mwyn sicrhau y cyflawnir yr egwyddor hon, mae'r broses arfarnu yn ceisio pennu'r cyfleoedd cysylltedd ehangach y bydd y gweithrediadau yn cyd-fynd â nhw, er mwyn osgoi datblygiadau sydd ar wahân.

Mae'n rhaid i rai gweithgareddau yn y cynllun Blaenoriaeth Cysylltedd i Orllewin Cymru a'r Cymoedd gael eu blaenoriaethu'n rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys prosiectau megis y Cyrchfan Denu Ymwelwyr, y prosiect Adeiladu ar gyfer y Dyfodol a phrosiectau i lenwi 'bylchau' lleol mewn perthynas â'r gweithredu sylfaenol ar gyfer Safleoedd ac Adeiladau. Cymeradwywyd chwe phrosiect unigol gan WEFO o dan ddau weithrediad ambarél Llywodraeth Cymru (4 cynllun o dan weithrediad Twristiaeth a 2 o dan Adeiladu ar gyfer y Dyfodol) a bydd rhagor yn dilyn yn ystod y misoedd nesaf. Bellach fe gymeradwywyd pedwar prosiect awdurdod lleol ac a flaenoriaethwyd yn rhanbarthol i lenwi 'bylchau' Safleoedd ac Adeiladau ac mae chwech arall yng nghan cynllunio busnes WEFO. Mae nifer o gynigion newydd hefyd yn y cam cyn cynllunio ar ôl trafodaeth rhwng WEFO a Thimau Ymgysylltu Rhanbarthol yr awdurdod lleol, ynghylch blaenoriaethu rhagor o brosiectau llenwi bylchau i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael.

Mae trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch graddfa'r cynnig band eang nesaf, a fydd yn ceisio mynd i'r afael â'r diffyg o 4% yn narpariaeth gwasanaethau Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf i bob eiddo yng Nghymru na ellir darparu ar eu cyfer o dan y gweithrediadau presennol. Diffinnir natur a graddfa hyn (o bosibl trwy amrywiaeth o ddewisiadau technolegol) yn dilyn canlyniad Adolygiad o'r Farchnad Agored. Caiff adroddiad ei gyflwyno ynghylch hyn ym mis Hydref bellach o ganlyniad i nifer helaeth yr ymatebion (tua 300) i'r ymgynghoriad. Gwahoddir Llywodraeth Cymru hefyd i gyflwyno cynnig cymedrol i gynnwys Dwyrain Cymru.

Mae Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud cynnydd cyson o ran gwerthuso dewisiadau Cam 2 y Metro a fydd yn ceisio cefnogaeth yr ERDF. Mae'r trafodaethau yn parhau, gyda chymeradwyaeth Trafnidiaeth Cymru, Y Comisiwn Ewropeaidd a JASPER.

Tabl 9: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd						Dwyrain Cymru		
	Allbynnau	Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma
AP4.1 Ymdrin ag ymyloldeb a gwella buddsoddiad preifat mewn ardaloedd lleol drwy wella'r ffordd y mae'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) yn gweithredu)	Cyfanswm hyd y ffyrdd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T)	15	7	-	-	n/a	n/a	n/a	n/a
	Llwybr troed neu lwybr beicio wedi'i greu neu ei ailadeiladu	10	3	-	-	n/a	n/a	n/a	n/a
AP4.2 Mwy o symudedd trefol a llafur i ac o ganolfannau trefol a chyflogaeth allweddol (AP4.1 Dwyrain Cymru)	Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u creu neu eu gwella	2,500,000	-	-	-	420,000	-	-	-
	Cyfleusterau rhyngfoddol wedi'u creu neu eu gwella	25	6	5	5	5	-	-	-
	Cyfanswm hyd rheilffordd newydd (gan gynnwys TEN-T)	15	-	-	-	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cyfanswm hyd y rheilffordd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T)	15	-	-	-	3	-	-	-
	Cilometrau teithwyr gros ar dfrnidiaeth gyhoeddus	400,000,000	1,790,041	-	-	67,200,000	-	-	-
	Cyfanswm hyd y ffyrdd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T)	5	1	-	-	5	-	-	-
AP4.3 Cyfrannu at dargedau Agenda Ddigidol Ewrop yng Nghymru am fynediad o 30% i fand eang y genhedlaeth nesaf (50Mbps ac uwch) a mynediad o 100% i 100Mbps (AP4.2 Dwyrain Cymru)	Lleihad mewn allyriadau cyfatebol ag CO2	10,700	-	-	-	1,800	-	-	-
	Eiddo ychwanegol â mynediad band eang 30 Mbps o leiaf - Aelwydydd	28,000	69,524	57,935	44,773	28,000	46,801	40,950	18,516
	Nifer y Mentrau a gynorthwyr i gysylltu â rhwydweithiau 100Mbps neu uwch	250	250	-	-	25	25	-	-
	Poblogaeth ychwanegol sy'n derbyn band eang cyflym iawn (>100Mbps)	n/a	91,053	75,876	41,022	n/a	43,494	38,052	25,599
AP4.4 Cynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiadau mewn seilwaith lleol neu ranbarthol â blaenoriaeth sy'n ategu strategaeth economaidd ranbarthol neu drefol	Nifer y swyddi y crëwyd lle ar eu cyfer	1,770	2,994	70	-	n/a	n/a	n/a	n/a
	Tir wedi'i ddatblygu	50	102	-	-	n/a	n/a	n/a	n/a
	Adeiladau a grëwyd neu a adnewyddwyd	56,430	150,597	2,075	-	n/a	n/a	n/a	n/a
	Nifer y busnesau bach a chanolig y crëwyd lle ar eu cyfer	235	250	2	-	n/a	n/a	n/a	n/a

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2017

Mae'n rhy gynnar i wneud unrhyw benderfyniadau cadarn ynghylch cyflawni allbynnau; er hynny, yn ôl yr hyn a gymeradwywyd a'r hyn sydd yn y cam cynllunio busnes a chyn-gynllunio, ymddengys fod cyflawni allbynnau a thargedau ar y trywydd cywir.

Adran 1: Rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF): Ymrwymiad

Mae'r adran hon yn rhoi manylion y cynnydd ariannol cyfredol o dan Raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), gan gynnwys golwg cyffredinol ar y Rhaglenni a gwybodaeth ar lefel Blaenoriaeth.

Mae Tabl 1 yn dangos nifer a swm Grant yr UE sydd wedi ei ymrwymo i Weithrediadau cymeradwy o dan Raglenni ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a Dwyrain Cymru.

Tabl 1: Ymrwymiad Grant yr UE yn ôl Rhaglen a Blaenoriaeth: Gweithrediadau wedi eu Cymeradwyo

£ Miliynau											
Blaenoriaeth	Gweithrediadau a gymeradwywyd	Dyraniad		Wedi'i neilltuo				Cyfran o'r dyraniad			
		Cyfanswm ¹	Grant yr UE ¹	Cyfanswm ²	Grant yr UE ²	Cyfanswm ³	Grant yr UE ³				
ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd											
1	10	212	167	148	(70%)	107	(64%)	16	(8%)	9	(5%)
2	16	410	295	416	(101%)	253	(86%)	67	(16%)	55	(19%)
3	14	281	209	229	(81%)	151	(72%)	27	(10%)	22	(11%)
4	6	18	14	24	(131%)	15	(109%)	4	(22%)	2	(15%)
Cyfanswm	46	922	686	817	(89%)	525	(77%)	114	(12%)	88	(13%)
ESF Dwyrain Cymru											
1	6	75	37	29	(39%)	15	(39%)	2	(2%)	1	(2%)
2	10	169	82	191	(114%)	47	(57%)	31	(18%)	6	(7%)
3	12	103	51	123	(120%)	41	(80%)	11	(10%)	8	(15%)
4	5	7	3	6	(85%)	3	(82%)	1	(14%)	0	(11%)
Cyfanswm	33	353	174	349	(99%)	105	(61%)	44	(12%)	15	(9%)
Cyfanswm ESF	79	1,275	860	1,166	(91%)	631	(73%)	158	(12%)	103	(12%)
Ffynhonnell: SCEC. 31/07/2017											

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2017

¹ Yn seiliedig ar gyfradd gyfnewid o £1:€1.17

² Dengys canrannau'r swm sydd wedi'i neilltuo fel cyfran o'r dyraniad

³ Dangosir canrannau y gwariant fel cyfran o'r dyraniad

Diweddariad Cyffredinol y Rhaglen

Mae ymrwymiad ar 73% yn gyffredinol ar draws y ddwy raglen (ar y gyfradd cynllunio o €1.17 wedi'i adolygu), ac mae 79 o weithrediadau wedi eu cymeradwyo sy'n rhoi ymrwymiad o £631 miliwn, sy'n £3 miliwn yn ychwanegol o ESF ers y Pwyllgor Monitro Rhaglenni diwethaf. Mae'r ymrwymiad ychwanegol yn adlewyrchu'r gymeradwyaeth o 2 weithrediad newydd. Mae WEFO yn bwriadu neilltuo y £229 miliwn sydd yn weddill erbyn diwedd 2018 trwy gymysgedd o brosiectau newydd a rhai sydd ar y gweill, gan ehangu prosiectau i gyflawni mwy dros amserlenni hwy (pan fo prosiectau yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau) a galwadau wedi eu targedu ar gyfer meysydd o'r rhaglenni lle nad yw diddordeb wedi datblygu fel y disgwyliwyd.

Hyd yn hyn mae £88m (13% GCC) a £15m (9% DC) wedi'i dalu i noddwyr prosiectau. Ar hyn o bryd mae taliadau yn aros am ganiatâd WEFO sy'n gyfystyr â £10m a £2m ar gyfer Gorllewin Cymru a Dwyrain Cymru yn y drefn honno; gan

ystyried y rhain, mae'r taliadau i noddwyr yn codi i £98m (14%) yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a £17m (10%) yn Nwyrain Cymru.

Mae'r ffigurau gwariant hyn wedi arwain at hawlio arian o gronfa'r Comisiwn Ewropeaidd o 15% o'r dyraniad grant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ac 11% o'r dyraniad grant yn Nwyrain Cymru, sydd lawer uwch na chyfartaledd yr UE o 4%. Mae'r holl Raglenni wedi cwrdd â thargedau N+3 2017 ac maent ar y trywydd iawn i fodloni targedau 2018.

Mae gan y rhan fwyaf o feysydd Blaenoriaeth ac Amcan Penodol bortffolio cytbwys o weithrediadau erbyn hyn, sydd wedi'i lunio i gyflawni ar draws ystod o grwpiau cleientiaid cyfranogol wedi eu targedu a chanlyniadau wedi eu targedu. Mae gan weithrediadau newydd sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd botensial i ymrwymo £38 miliwn ychwanegol ac i gynnig gweithgaredd penodol pwrpasol i lenwi bylchau sy'n bodoli naill ai yn y dewis o ddarpariaeth sydd ar gael neu mewn grwpiau cwsmeriaid wedi eu targedu. Mae hyn yn cynnwys rhai cynigion newydd o ganlyniad i alw diweddar WEFO ar gyfer blaenoriaeth Tlodi (gweler Adran 2 i gael rhagor o fanylion).

Yn ogystal â gofalu am ymrwymïadau yn y dyfodol, mae prif bwyslais ESF erbyn hyn ar gyflawni. Mae'r rhaglenni eisoes wedi ymgysylltu â bron i 95,000 o gyfranogwyr hyd yn hyn (22% o'r targed cyffredinol), gan gefnogi 4,900 o bobl i gael cyflogaeth a bron i 36,000 i ennill cymwysterau.

Adran 2: Cynnydd yn ôl Blaenoriaeth**Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi trwy Gyflogaeth Gynaliadwy****Tabl 2: Ymrwymiad Grant yr UE yn ôl Amcan Penodol**

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ESF		Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ESF	
AP1.1: Helpu pobl i mewn i waith	1	£39m	£34m	86%	n/a	n/a	n/a	n/a
AP1.2: Cynhwysiant ac Ymgysylltu mewn LM (AP1.1 Dwyrain Cymru)	8	£103m	£70m	68%	6	£37m	£15m	39%
AP1.3: Helpu pobl i aros mewn gwaith	1	£25m	£3m	13%	n/a	n/a	n/a	n/a
Cyfanswm Blaenoriaeth 1	10	£167m	£107m	64%	6	£37m	£15m	39%

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2017

Tabl 3: Gweithrediadau wedi eu cymeradwyo ers y Pwyllgor Monitro Rhaglenni diwethaf

Nid oes gweithrediadau wedi eu cymeradwyo ers y Pwyllgor Monitro Rhaglenni blaenorol.

Ni chymeradwywyd gweithrediadau newydd ers y Pwyllgor Monitro Rhaglenni diwethaf yn y maes blaenoriaeth hwn. Mae lefelau ymrwymo cyfredol ar 64% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 39% yn Nwyrain Cymru, gyda chyfanswm cyllid yr UE o £121.3 miliwn wedi ei ymrwymo ac mae £83.6 arall yn aros i'w ddyrannu. Mae posibiliadau ymrwymiad ychwanegol yn cynnwys ehangu gweithrediadau presennol, yn amodol ar eu perfformiad, a'r galwadau diweddar a gafwyd o dan bob rhaglen. Cynigodd y galwadau gyfle i ymrwymo £20 miliwn o ESF yn ychwanegol ar gyfer pob maes rhaglen, oddeutu £7.7 miliwn o dan Amcan Penodol (AP) 3 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, a allai gynyddu gan fod cynigion yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau ychwanegol gyda WEFO ac oddeutu £2 miliwn yn Nwyrain Cymru. Mae'r lefel hon o ymateb yn Nwyrain Cymru yn parhau i ddangos yr amgylchedd heriol sy'n wynebu'r flaenoriaeth Tlodi yn y maes rhaglen hwn ac mae'n deillio o gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys y gyfradd ymyrryd is o 50% sydd ar gael trwy raglen Dwyrain Cymru, yn ogystal â'r cyllid cyfatebol sydd ar gael ar gyfer noddwyr y sector cyhoeddus yn bennaf. Cynhelir trafodaethau gyda'r Comisiwn drwy gydol yr hydref i ystyried y posibiliadau o addasu'r rhaglen i helpu i sicrhau buddsoddiad trwy'r Flaenoriaeth hon yn y dyfodol.

Mae'r holl weithrediadau a gymeradwywyd yn ymdrin â rhwystrau penodol y mae unigolion yn eu hwynebu wrth chwilio am waith ac i aros mewn gwaith. Maent i gyd yn adeiladu ar lwyddiant y cylch ariannu ESF blaenorol drwy barhau i ganolbwyntio ar gyflogaeth fel y prif amcan unigolyn a rhoi hyd yn oed mwy o bwyslais ar yr unigolion hynny sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur a chyda'r rhwystrau mwyaf cymhleth i gael cyflogaeth.

Tabl 4: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma
AP1.1 Cynyddu cyflogadwyedd y rhai sydd agosaf at y farchnad lafur ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi	Nifer y di-waith tymor byr heb sgiliau/sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio	5,999	4,799	-	-	n/a	n/a	n/a	n/a
	Unigolion y mae dileu swydd yn effeithio arnynt	12,001	15,269	2,586	1,646	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr di-waith yn y tymor byr â sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio mewn cyflogaeth wrth adael	33%	57%	0%	0%	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr di-waith yn y tymor byr â sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sy'n ennill cymhwyster wrth adael	50%	86%	0%	0%	n/a	n/a	n/a	n/a
	Unigolion y mae dileu swydd yn effeithio arnynt sydd mewn cyflogaeth wrth adael	55%	54%	39%	25%	n/a	n/a	n/a	n/a
	Unigolion y mae dileu swydd yn effeithio arnynt sy'n ennill cymhwyster wrth adael	70%	78%	67%	77%	n/a	n/a	n/a	n/a

WPMC(17)104

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma
AP1.2 Cynyddu cyflogadwyedd pobl sy'n Economaidd anweithgar ac sy'n Ddiwaith yn yr Hirdymor sy'n 25 oed a throsodd sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth (AP1.1 Dwyrain Cymru)	Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth	36,000	41,137	10,325	4,896	12,700	14,611	1,447	1,032
	Di-waith tymor hir (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth	10,800	18,107	3,528	2,481	3,800	5,863	803	595
	Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n mynd i gyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth wrth adael	20%	19%	13%	15%	20%	18%	19%	17%
	Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ymwneud â chwilio am swydd wrth adael	25%	14%	10%	4%	25%	14%	16%	6%
	Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad perthnasol i waith wrth adael	50%	30%	25%	13%	50%	24%	14%	6%
	Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n cynyddu eu cyflogadwyedd drwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle i wirfoddoli	54%	14%	8%	0%	54%	16%	2%	0%
	Di-waith hirdymor (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n mynd i gyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth wrth adael	25%	15%	10%	0%	25%	18%	14%	0%
	Di-waith yn yr hirdymor (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad perthnasol i waith wrth adael	50%	26%	29%	13%	50%	20%	13%	7%
	Di-waith hirdymor (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n cynyddu eu cyflogadwyedd drwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle i wirfoddoli	54%	22%	22%	10%	53%	19%	14%	4%

WPMC(17)104

Amcan Penodol	Allbynnau	Rhagolwg Targed Prosiect	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
					Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma
AP1.3 Gostwng cyfraddau tangyflogaeth neu absenoldeb unigolion cyflogedig sydd â chyflwyr iechyd sy'n cyfyngu ar waith a/neu wystrau eraill i ymgysylltu â'r farchnad lafur mewn modd cynaliadwy	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chyflwr neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio		4,000	4,232	1,668	798	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr sydd wedi eu tangyflogi sydd â rhwystrau i gyflogaeth lawn		4,000	-	-	-	n/a	n/a	n/a	n/a
	Nifer y busnesau micro bach a chanolig a gynorthwyr		2,000	-	-	-	n/a	n/a	n/a	n/a
	Rhaglenni iechyd yn y gweithle		300	130	49	-	n/a	n/a	n/a	n/a
	Mentrau â chymorth sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro		50%	0%	0%	0%	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o absenoldeb		50%	19%	18%	100%	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sydd mewn sefyllfa well ar y farchnad lafur wrth adael		50%	31%	32%	33%	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr sydd wedi eu tangyflogi sydd mewn sefyllfa well ar y farchnad lafur wrth adael fel contract parhaol ag oriau uwch		40%	0%	0%	0%	n/a	n/a	n/a	n/a

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2017

Mae perfformiad cyffredinol ar gyfer y flaenoriaeth hon yn aros yn galonogol gyda mwy na 12,000 o gyfranogwyr wedi cymryd rhan hyd yn hyn. Mae niferoedd y cyfranogwyr a ragwelir yn rhagori ar dargedau rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd fel arfer. Er hynny, mae cynnydd o'i gymharu â thargedau a ragwelwyd yn dangos nad yw tybiaethau cynllunio cynnar gan weithrediadau wedi cyflawni fel y disgwyliwyd. Mae arwyddion bod cyflawniad yn cael ei ddylanwadu gan gryfder y farchnad lafur a'r her o ymgysylltu â grŵp o gwsmeriaid sy'n anos eu helpu. Mae WEFO yn dal i fonitro yr hyn sy'n digwydd mewn gweithrediadau unigol.

Dileu swyddi a Diweithdra tymor byr (AP1.1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd): Nid yw'r ymgysylltiad â chymorth dileu swyddi o dan y gweithrediad ReACT wedi bod mor uchel â'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol gan fod niferoedd o ran dileu swyddi yn is na'r hyn a ragwelwyd. Felly, mae'n gadarnhaol i raddau helaeth bod yr ymgysylltiad yn is na'r disgwyl, ond bydd yr amcan penodol hwn yn rhywbeth y bydd yn rhaid i WEFO ei fonitro o ran lefelau gwariant cyffredinol. Bydd y newidiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer gweithrediad ReACT hefyd yn ei alluogi i wella diweithdra tymor byr maes o law.

Yn ddi-waith yn y tymor hir ac yn economaidd anweithgar (AP1.2 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac AP1 Dwyrain Cymru): Mae rhagolygon yn rhagori ar dargedau'r rhaglenni wrth ystyried lefel yr ymrwymiad er bod yr ymateb isel i'r galw yn Nwyrain Cymru yn dal i fod yn her i'r cyflawniad yn y maes hwn o'r rhaglen. Mae'r niferoedd isel ymddangosiadol o gyfranogwyr, sydd wedi ymgysylltu erbyn hyn yn erbyn y proffil, yn adlewyrchu'r amserlenni hwy na'r disgwyl er mwyn gwneud i'r systemau a'r cyflawniad weithio, ynghyd â natur fwy heriol o ymgysylltu â grwpiau sy'n anos eu cyrraedd sydd wrth wraidd amcanion y rhaglen. Caiff hyn ei adlewyrchu ymhellach yn y dangosyddion canlyniadau sy'n dangos bod angen ymyraethau dwysach a mwy hirdymor ar gyfer y garfan sy'n anos ei chyrraedd, ac felly cyflawnir y canlyniadau yn ddiweddarach nag a gynlluniwyd. Mae cyflawniad yn gwella i raddau yn y canlyniadau a gafwyd, yn arbennig o ran y garfan economaidd anweithgar sy'n mynd i gyflogaeth.

Tangyflogedig a chyflogedig gyda phroblemau iechyd sy'n eu hatal rhag gweithio (AP3 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd): Eto, mae cyflawniad yn is na'r disgwyl, ar y cam hwn o weithredu oherwydd yr amserlenni hwy na'r disgwyl i roi'r rhaglen ar waith. Rhagwelir y bydd y galw diweddar ar gyfer yr Amcan Penodol hwn yn rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn amodol ar gymeradwyaeth, yn cynyddu lefelau cyflawni a pherfformiad yn y maes hwn a gwelir hyn yn bennaf yn ystod 2018.

Blaenoriaeth 2: Sgiliau am Dwf**Tabl 5: Ymrwymiad Grant yr UE yn ôl Amcan Penodol**

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ESF		Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ESF	
AP2.1: Sgiliau Sylfaenol	5	£142m	£88m	62%	3	£53m	£19m	36%
AP2.2: Hyblygrwydd a Chynnydd	8	£89m	£124m	139%	6	£24m	£25m	106%
AP2.3: Ymchwil ac Arloesi	2	£46m	£35m	77%	n/a	n/a	n/a	n/a
AP2.4: Cydraddoldeb Rhywiol (AP2.3 Dwyrain Cymru)	1	£18m	£6m	30%	1	£4m	£2m	58%
Cyfanswm Blaenoriaeth 2	16	£295m	£253m	86%	10	£82m	£47m	57%

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2017

Gweithrediadau wedi eu cymeradwyo ers y Pwyllgor Monitro Rhaglenni diwethaf

Nid oes gweithrediadau wedi eu cymeradwyo ers y Pwyllgor Monitro Rhaglenni blaenorol.

Ni chymeradwywyd gweithrediadau newydd ers y Pwyllgor Monitro Rhaglenni diwethaf yn y maes blaenoriaeth hwn. Mae lefelau ymrwymo yn eithaf uchel eisoes ar 86% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 57% yn Dwyrain Cymru, gyda chyfanswm o gyllid yr UE o £299.9 miliwn eisoes wedi'i ymrwymo a dim ond £77.1 miliwn ar ôl i'w dyrannu. Mae nifer o gynigion yn dal i gael eu datblygu ac mae potensial i ymestyn rhai gweithrediadau presennol sydd wedi eu cymeradwyo i gael eu cynnal am gyfnod hwy, yn amodol ar eu perfformiad. Mae'r portffolio o weithrediadau hyd yn hyn yn adeiladu ar y cyflawniadau o raglen 2007-13. Gan ganolbwyntio ar gyflawni ar gyfer sgiliau hanfodol, technegol ac arbenigol sy'n ofynnol er mwyn creu gweithlu sy'n alluog ac yn hyblyg ac sydd â'r adnoddau i allu gwneud defnydd llawn o'r cyfleoedd a phosibiliadau i ddatblygu a gynigir gan economi fodern wedi'i seilio ar wybodaeth. Mae sgiliau sylfaenol a hanfodol yn sail gyffredin ac angenrheidiol ar gyfer y gweithlu cyfan, ond mae'r wybodaeth ar gyfer cyfleoedd twf allweddol a sectorau newydd a blaenoriaethol, sydd wedi'i nodi yn y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd (EPF), yn ogystal â'r cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau newydd sy'n cael eu datblygu gan Bartneriaethau Dysgu Rhanbarthol a Gwybodaeth am y Farchnad Lafur, yn offer allweddol ar gyfer arwain y targedu a'r pwyslais ar gyfer ymyraethau sgiliau, yn arbennig y rhai hynny sy'n cyflawni sgiliau ar lefel canolradd ac uwch.

Mae buddiolwyr sy'n ceisio darparu hyfforddiant i'r gweithlu cyflogedig yn ymateb yn gadarnhaol i gyfeiriad newydd y polisi sy'n cynnig buddsoddiad ar y cyd gan gyflogwyr, a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Sgiliau Llywodraeth Cymru ac a gefnogir gan y Rhaglenni Gweithrediadol. Mae cyllido ar y cyd preifat drwy gyfraniad arian parod gan gyflogwr wedi eu cynnwys yn y gweithrediadau hyn wrth iddynt gael eu datblygu a'u cymeradwyo.

Tabl 6: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb gymwysterau ffurfiol - Dynion	14,029	5,092	1,761	370	7,799	1,728	669	41
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb gymwysterau ffurfiol - Menywod	12,771	5,407	1,690	271	7,101	1,934	762	78
	gynnwys addysg uwchradd is - Dynion	23,870	21,734	6,594	6,646	13,296	9,022	2,549	3,211
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Menywod	21,730	26,300	6,559	6,627	12,104	10,854	2,658	3,616
AD2.1 Cymryd lfeleau sgiliau gan gynnwys sgiliau sy'n berthnasol i waith, y rhai yn y	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb gymwysterau ffurfiol ennill sgiliau hanfodol neu gymhwyster technegol neu benodol i swydd wrth adael -	72%	77%	39%	45%	72%	76%	37%	0%
gwasthyradd â seiliau isel ac a gub	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb gymwysterau ffurfiol ennill sgiliau hanfodol neu gymhwyster technegol neu benodol i swydd wrth adael - Menywod	72%	77%	44%	53%	72%	76%	34%	0%
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig gyda hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is sy'n ennill cymhwyster sgiliau hanfodol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd is wrth adael - Dynion	72%	80%	40%	59%	72%	81%	42%	56%
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig gyda hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is sy'n ennill cymhwyster sgiliau hanfodol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd is wrth adael - Menywod	72%	80%	46%	55%	72%	81%	41%	50%

WPMC(17)104

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma
AP2.2 Cynyddu nifer y bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a phenodol i waith ar lefel ganolraddol ac uwch	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) - Dynion	16,070	22,137	5,419	4,396	6,438	9,754	2,515	2,301
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) - Menywod	14,630	27,487	5,513	4,665	5,862	12,208	2,515	2,462
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Dynion	10,731	11,804	4,246	4,983	4,292	5,390	2,003	2,828
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Menywod	9,769	12,991	6,470	9,480	3,908	5,585	3,401	5,619
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd wrth adael ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Dynion	60%	79%	36%	52%	60%	80%	37%	57%
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd wrth adael ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Menywod	60%	79%	40%	50%	60%	80%	50%	53%
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch wrth adael - Dynion	60%	80%	36%	35%	60%	80%	52%	38%
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch wrth adael - Menywod	60%	80%	28%	42%	60%	80%	32%	43%

WPMC(17)104

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma
AP2.3 Cynyddu nifer y bobl â graddau neu gymhwyster cyfatebol sy'n cyflawni gweithgareddau ymchwil ac arloesedd ym myd busnes	Cyfranogwyr sydd ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth - Dynion	780	486	140	172	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr sydd ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth - Menywod	720	386	88	105	n/a	n/a	n/a	n/a
	Nifer y Mentrau sy'n cydweithio â darparwyr dysgu	750	566	109	170	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sy'n ennill cymhwyster wrth adael ar lefel Meistr (FfCChC 7) neu Ddoethuriaeth (FfCChC 8) - Dynion	63%	82%	2%	0%	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sy'n ennill cymhwyster wrth adael ar lefel Meistr (FfCChC 7) neu Ddoethuriaeth (FfCChC 8) - Menywod	63%	79%	0%	0%	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr â gradd ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sydd mewn cyflogaeth wrth adael Dynion	52%	0%	0%	0%	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr â gradd ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sydd mewn cyflogaeth wrth adael Menywod	52%	0%	0%	0%	n/a	n/a	n/a	n/a
AP2.4 Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu (AP2.3 Dwyrain Cymru)	Nifer y mentrau micro bach a chanolig a gynorthwyr (gan gynnwys mentrau cydweithredol, mentrau yr economi gymdeithasol)	800	347	192	-	300	153	85	75
	Cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig	4,400	1,407	591	-	1,500	800	474	474
	Cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster wrth adael	75%	80%	49%	0%	73%	80%	33%	33%
	Mentrau â chymorth sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	50%	80%	56%	0%	50%	80%	46%	47%
	Cyfranogwyr sydd mewn sefyllfa well ar y farchnad wrth adael	40%	40%	7%	0%	40%	40%	12%	7%

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2017

Mae'r sefyllfa o ran perfformiad ar gyfer y flaenoriaeth hon yn parhau i fod yn galonogol iawn. Pan fo bylchau yn bodoli yn yr allbynnau a neilltuwyd i fuddiolwyr, mae cyllid ar ôl i ymdrin â nhw. Hyd yn hyn, mae dros 58,000 o gyfranogwyr wedi eu cynnwys mewn gweithrediadau a gymeradwywyd yn y Flaenoriaeth hon. Mae cyflawniadau yn erbyn y rhan fwyaf o ddangosyddion yn dilyn y proffil neu'n rhagori arno, a gellir gweld y darlun calonogol hwn yn y data cymwysterau a'r niferoedd a gymerodd ran, wrth i gyfranogwyr ddechrau cwblhau cyrsiau a chael eu dyfarniadau.

Gwella sgiliau ar gyfer y rhai sydd â sgiliau isel neu heb sgiliau o gwbl (SO2.1): Mae rhagolygon yn uchel yn erbyn targedau'r rhaglen, o ystyried yr ymrwymiad ariannol isel hyd yn hyn, (54% ar gyfartaledd), ac mae'r cyflawniadau hyd yn hyn yn galonogol. Yr eithriad yw cyfranogwyr nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau ffurfiol; mae hyn oherwydd ei bod yn anodd diffinio yr hyn a olygir gan 'gymwysterau ffurfiol'. Mae rhai gweithrediadau yn adrodd bod hyd yn oed yr unigolion â sgiliau isel iawn yn cyflwyno o leiaf rhyw lefel o gymhwyster blaenorol (e.e. dyfarniad lefel mynediad) sy'n arwain at iddynt adrodd bod llai o gyfranogwyr 'heb gymwysterau' na'r disgwyl.

Sgiliau lefel canolradd ac uwch (SO2.2): Rhagwelir y bydd y canlyniadau ledled Cymru yn rhagori ar bob targed. Yn galonogol, mae targedau'r fframwaith ar gyfer 2018 o fewn yr Amcan Penodol hwn (sy'n ymwneud â chyfranogwyr ag addysg uwchradd lefel is) wedi eu cyrraedd erbyn hyn. Mae nifer y cyfranogwyr ag addysg uwchradd lefel uwch, yn enwedig merched, yn gryf iawn hefyd.

Gwaith Ymchwil ac Arloesi (SO2.3 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig): Mae cyllid wedi'i ymrwymo erbyn hyn a fydd yn cefnogi ychydig dros 800 o gyfranogwyr yn yr Amcan Penodol hwn (doethuriaethau diwydiannol ac ysgoloriaethau ymchwil yw'r rhain). Er ein bod yn gobeithio cynyddu nifer yr ysgoloriaethau ymchwil ymhellach, mae'n ymddangos erbyn hyn bod y targed gwreiddiol, sef 1,500 o gyfranogwyr ar gyfer yr Amcan Penodol hwn, yn rhy uchel o ystyried bod gweithgarwch yn y maes wedi'i gyfyngu i'r meysydd Gwyddoniaeth i Gymru sy'n 'her fawr' a bod allbynnau (e.e.doethuriaethau) yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w cyflawni. Mae'r lefel is o gyfranogwyr yn cael ei liniaru i raddau gan y ganran sylweddol uwch o gyfranogwyr y disgwylir iddynt gyflawni deilliannau allweddol, ac mae hyn yn galonogol.

Gwella safle menywod yn y gweithlu (AP2.4 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd / AP2.3 Dwyrain Cymru): Mae targedau ar gyfer y ddwy raglen yn unol â disgwyliadau yn gyffredinol. Mae'r diffyg o ran cyflawniadau a adroddwyd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd o ganlyniad i broblemau dilysu ar gyfer hawliad diweddar, ac mae WFO yn fodlon ar y trafodaethau a gafwyd gyda'r buddiolwr a gadarnhaodd fod allbynnau a chanlyniadau yn parhau i gael eu cyflawni.

Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc Tabl 7:
Ymrwymiad Grant yr UE yn ôl Amcan Penodol

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd					Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyranid Mynegol	Cymeradwywyd ESF			Gweithrediadau	Dyranid Mynegol	Cymeradwywyd ESF	
AP3.1: Diweithdra ymhlith ieuencid	6	£115m	£98m	85%		8	£38m	£32m	84%
AP3.2: Cyrhaeddiad ac ymgysylltu ieuencid	6	£73m	£47m	64%		4	£13m	£9m	68%
AP3.3: STEM	1	£11m	£2m	15%		n/a	n/a	n/a	n/a
AP3.4: Blynnyddoedd cynnar	1	£10m	£4m	40%		n/a	n/a	n/a	n/a
Cyfanswm Blaenoriaeth 3	14	£209m	£151m	72%		12	£51m	£41m	80%

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2017

Tabl 8: Gweithrediadau wedi eu cymeradwyo ers y Pwyllgor Monitro Rhaglenni diwethaf

Gweithrediadau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ESF	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ESF
Cynnydd (Powys County Council)			£2.0m	£1.0m
ADTRAC (Grŵp Llandrillo-Menai)			£3.6m	£1.8m

Ymrwymwyd £3.8 miliwn o ESF ychwanegol i raglen Dwyrain Cymru ers y cyfarfod Pwyllgor Monitro Rhaglenni diwethaf, sydd wedi cynyddu'r ymrwymiad i'r flaenoriaeth yn Nwyrain Cymru i 80%. Gan na chymeradwywyd unrhyw weithrediad ychwanegol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae'r ymrwymiad yn aros ar 72%. Cyfanswm cyllid yr UE sydd wedi'i ymrwymo yw £191.8 miliwn a dim ond £69.5 miliwn sydd ar ôl i'w ddyrannu. Gan fod nifer o weithrediadau yn cael eu datblygu, ceir cyfle ychwanegol i adeiladu ar y lefelau ymrwymiad cryf a chadarnhaol yn y flaenoriaeth hon.

Mae'r portffolio o weithrediadau yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â diweithdra a chyrhaeddiadau ymhlith pobl ifanc, ar gyfer pobl ifanc sydd wedi eu dosbarthu yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant nac yn debygol o symud i'r dosbarth hwn.

Mae'r ddwy gymeradwyaeth newydd yn Nwyrain Cymru yn cynnwys £1 miliwn o ESF ar gyfer gweithrediad **Cynnydd**. O dan arweiniad Cyngor Sir Powys, mae'r gweithrediad yn cyflawni cyfres o weithrediadau'r awdurdod lleol o fewn y Blaenoriaethau leuencid sydd wedi eu nodi i gefnogi'r rhai sy'n 11-24 oed sydd mewn perygl o fod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Cymeradwywyd hefyd £1.8 miliwn arall o ESF ar gyfer y gweithrediad **ADTRAC** dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai. Bydd y gweithrediad hwn yn gweithio ar y cyd â gweithrediad ADTRAC Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a gafodd ei gadarnhau yn

niweddariad diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni, i gefnogi'r rhai sy'n 16-24 oed yn rhanbarth Gogledd Cymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a chanddynt rwystrau niferus sy'n eu hatal rhag symud i addysg neu gyflogaeth.

Tabl 9: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma
AP3.1 Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed Nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET)	Cyfranogwyr NEET (16-24 oed)	42,700	48,483	13,138	11,724	21,200	28,266	6,842	4,775
	Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sy'n ennill cymwysterau wrth adael - ag addysg gynradd neu uwchradd is	20%	40%	7%	32%	20%	42%	7%	33%
	Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sydd mewn addysg/hyfforddiant wrth adael	17%	17%	15%	25%	17%	17%	15%	33%
	Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sy'n mynd i gyflogaeth wrth adael	28%	30%	24%	20%	28%	32%	26%	20%
AP3.2 Lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 24 oed sy'n wynebu risg o ddod yn NEET	Cyfranogwyr sydd mewn Perygl o fod yn NEET (11-24 mlwydd oed)	49,700	16,064	7,393	3,692	13,000	6,836	2,251	1,212
	Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sy'n ennill cymwysterau wrth adael - ag addysg gynradd (FfCChC 1) neu uwchradd is (FfCChC 2)	7%	14%	5%	1%	27%	17%	12%	1%
	Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sy'n mynd i addysg/hyfforddiant wrth adael	19%	8%	7%	2%	18%	11%	11%	1%
	Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sydd â llai o berygl o fod yn NEET wrth adael	-	58%	33%	7%	-	58%	42%	14%

WPMC(17)104

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Proffilio hyd yma	Cyflawnwyd hyd yma
AP3.3 Cynyddu lefelau cofrestru a chyrhaeddiad pynciau STEM ymhlith pobl ifanc 11-19 oed	Pobl Ifanc 11 -19 oed - Dynion	8,400	2,160	1,280	1,691	n/a	n/a	n/a	n/a
	Pobl Ifanc 11 -19 oed - Menywod	15,000	2,830	1,646	2,097	n/a	n/a	n/a	n/a
	Pobl Ifanc 11-19 oed sy'n cwblhau hyfforddiant mewn mathemateg Gwyddoniaeth Peirianneg a Thechnoleg - Dynion	55%	63%	60%	45%	n/a	n/a	n/a	n/a
	Pobl Ifanc 11-19 oed sy'n cwblhau hyfforddiant mewn mathemateg Gwyddoniaeth Peirianneg a Thechnoleg - Menywod	55%	34%	33%	20%	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr 11-19 oed sy'n parhau i astudio pwnc Mathemateg Gwyddoniaeth Peirianneg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - Dynion	45%	16%	9%	0%	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr 11-19 oed sy'n parhau i astudio pwnc Mathemateg Gwyddoniaeth Peirianneg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - Menywod	45%	4%	2%	0%	n/a	n/a	n/a	n/a
AP3.4 Cynyddu sgiliau'r gweithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant - dynion	300	73	46	-	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant - menywod	2,700	1,370	872	-	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n ennill cymwysterau wrth adael - Dynion	77%	77%	0%	0%	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n ennill cymwysterau wrth adael - Menywod	77%	76%	0%	0%	n/a	n/a	n/a	n/a

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2017

Yn gyffredinol, mae perfformiad y flaenoriaeth yn dal i fod yn gadarnhaol iawn, ac mae 20,000 o gyfranogwyr wedi cymryd rhan hyd yma.

Lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (SO3.1): Mae'r perfformiad cyffredinol yn gadarnhaol hyd yn hyn ac mae rhagolygon yn awgrymu y bydd y flaenoriaeth yn cyrraedd ei nod o 28% mewn cyflogaeth. Mae cyflawni'r canlyniadau hyn yn cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd ar y cychwyn, yn bennaf oherwydd cryfder y farchnad lafur a'r effaith o weithio gyda charfan sy'n anos ei chyrraedd. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y niferoedd a enillodd gymwysterau, yn bennaf oherwydd bod nifer sylweddol o gyfranogwyr wedi dod allan o'r gweithrediadau Hyfforddeiaeth gyda chymwysterau.

Mewn perygl o fod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (AP3.2): Mae darpariaeth gweithgarwch yn gwneud cynnydd da ac mae gwybodaeth ar berfformiad y prosiect yn awgrymu bod y gweithrediadau yn targedu'n llwyddiannus y rhai sydd mewn perygl o fod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant sydd â rhwystrau niferus a chymhleth rhag ymgysylltu ag addysg. Mae ymgysylltiad a chyflawniad o ymyraethau ar gyfer y garfan hon er hynny yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Mae WEFO yn gweithio gydag arweinwyr y gweithrediad i archwilio'r dichonolrwydd o gynyddu dwysedd ac effeithiolrwydd y cymorth ar gyfer cyfranogwyr. Bydd y targedau cyffredinol yn y maes hwn yn cael eu hystyried yn rhan o'r newidiadau arfaethedig i'r rhaglen.

Dilyn pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (AP3.3. Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig): Mae cynnydd yn erbyn allbynnau yn parhau i wella ac wrth i weithgarwch y prosiect ddwysau, gellir gweld cyraeddiadau yn erbyn rhai canlyniadau. Y rheswm pennaf am lai o adrodd o ran y parhad i astudio Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg ôl-16 yw amserlen y flwyddyn academaidd. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael gan ysgolion a cholegau ym mis Medi.

Gweithlu gofal plant y blynyddoedd cynnar (AP3.4 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig): Mae'r ddarpariaeth o weithgarwch wedi cychwyn, ond ni hawliwyd unrhyw ddangosyddion hyd yn hyn. Mae gwybodaeth rheoli perfformiad oddi wrth arweinydd y gweithrediad yn dangos cynnydd da hyd yma.

Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol**Tabl 10: Ymrwymiad Grant yr UE**

Dyranïad Cymeradwywyd Gweithrediadau Mynegol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru		
	ESF				Dyranïad Mynegol	Cymeradwywyd ESF	
Cyfanswm Blaenoriaeth 4	6	£14m	£15m	109%	5	£3m	£3m 82%

Flynhonnell: SCEC, 31/07/2017

Gweithrediadau wedi eu cymeradwyo ers y Pwyllgor Monitro Rhaglenni diwethaf

Nid oes gweithrediadau wedi eu cymeradwyo ers y Pwyllgor Monitro
Rhaglenni blaenorol.

Sefydlwyd pedwar Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol i helpu i wella'r modd yr ydym ni'n cyflawni a rheoli rhaglenni y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020. Maent wedi eu lleoli yng Ngogledd Cymru, Yng Nghanolbarth Cymru, ym Mae Abertawe ac yn Ne-ddwyrain Cymru.

Maent yn ychwanegu gwerth at gyflawniad a rheolaeth y rhaglenni gan WEFO drwy sicrhau y ceir integreiddio rhanbarthol o'r ddarpariaeth. Maent hefyd yn cyfrannu at symud tuag at fodel cyflawni sy'n fwy strategol gyda fframwaith cliriach o flaenoriaethu economaidd drwy sicrhau cyfochri a chydlynid o weithrediadau ar lefel ranbarthol. Mae hwyluso prawfesur rhanbarthol o weithrediadau arfaethedig yn un o brif swyddogaethau'r timau, ar gyfer rhoi safbwynt lleol i WEFO ar y strategaeth ranbarthol sy'n addas ar gyfer pob gweithrediad arfaethedig gyda strategaethau perthnasol ac ymyraethau a gweithgareddau ehangach, ac yn achlysurol, i hwyluso blaenoriaethu rhanbarthol o rai gweithrediadau arfaethedig fel y gofynnir gan WEFO (er enghraifft, ar gyfer Amcan Penodol ERDF 4.4). Mae'r timau yn gweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol mewn cysylltiad â phrawfesur rhanbarthol ac ymgysylltiad â gweithrediadau ESF.

Mae pob gweithrediad TA wedi'i gymeradwyo erbyn hyn.

Adran 1: Rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Wledig 2014-2020: Ymrwymiad

Dengys Tabl 1 y gwariant hyd yn hyn, y dyraniad hyd yn hyn a cyfanswm Grant yr UE sydd wedi ei neilltuo o dan Rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Wledig 2014-2020.

Tabl 1: Swm sydd wedi'i Ddyrannu, ei Wario a'i Neilltuo

£ Miliynau					
Dyraniad ¹		Wedi'i Neilltuo ²		Gwariant ²	
CYFANSWM ¹	EAFRD ¹	CYFANSWM	EAFRD	CYFANSWM	EAFRD
774			520 787 (102%)	521 (100%)	104 (13%) 76 (15%)

Ffynhonnell: WEFO, 31/07/2017

¹ Yn seiliedig ar gyfradd gyfnewid o £1:€1.25

² Mae'r canrannau'n dangos cyfran o'r dyraniad

Diweddariad Cyffredinol am y Rhaglen

Mae Rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Wledig 2014-2020 yn parhau i wneud cynnydd da ers ei chymeradwyaeth ar 26 Mai 2015.

Cyflwynwyd y mwyafrif o gynlluniau o dan Raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Wledig 2014-2020 trwy grantiau/cytundebau a reolir trwy broses gystadleuol o ddatgan diddordeb. Cychwynnir y cyfnodau cyflwyno datganiadau o ddiddordeb ar amseroedd a hysbysir ymlaen llaw. Mae hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ateb gofynion yr UE ar gyfer cyllido cystadleuol i sicrhau mai dim ond y prosiectau a'r gweithgarwch mwyaf addas a buddiol sy'n symud ymlaen i'r cam ymgeisio a chymeradwyo. Ymhlith yr eithriadau i hyn mae Cyswllt Ffermio a'r Cynllun Cyngori Busnesau Gwledig, a gyflwynir trwy weithgarwch caffael; LEADER; Cymorth Technegol a cheisiadau uniongyrchol strategol i'r Rhaglen.

Cymeradwywyd yr addasiad cyntaf i Raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Wledig 2014-2020 yn ffurfiol ar 28 Mehefin 2017, a newidiodd cyfradd gynllunio'r Rhaglen o 0.85 i 0.8 a dyraniadau'r Rhaglen i £774.4 miliwn, gyda £519.6 miliwn o hwnnw yn dod o Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Gyda'r ymrwymadau presennol yn £787.3 miliwn (£521 miliwn o gyllid yr UE), daw hyn â gwerth ymrwymedig y Rhaglen i ychydig dros 102%. Mae adrannau o'r Rhaglen yn fwy datblygedig o ran cyflwyno a chymeradwyo prosiect na rhaglenni eraill. Mae hyn i'w ddisgwyl o ystyried yr ystod eang o weithgareddau y gellir eu cefnogi trwy'r rhaglen a'r cam presennol o gyflwyno rhaglenni. Cyfanswm gwariant y rhaglen hyd yn hyn yw £104.2 miliwn (£76.4 miliwn o Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig). Mae £53.0 miliwn o hwn yn

gysylltiedig â thaliadau trosglwyddo Colofn 1. Bydd y gwerthoedd hyn yn cynyddu ymhellach wrth gymeradwyo ceisiadau sy'n cael eu harfarnu. Parha'r Rhaglen ar y trywydd cywir i gyflawni ei tharged N+3 o €123.8 miliwn yn ystod 2018. Dengys y rhagolygon y dylem gyrraedd y targed erbyn diwedd 2017.

Ar gyfer y cynlluniau economaidd cymdeithasol sydd yn y rhaglen, gwahoddwyd cyfanswm o 519 datganiad o ddiddordeb a 118 cais uniongyrchol i gyflwyno cais llawn. Hyd yn hyn, derbyniwyd 445 cais llawn (datganiad o ddiddordeb ac uniongyrchol). Cymeradwywyd cyfanswm o 235 gweithrediad (datganiad o ddiddordeb a chais uniongyrchol) gyda dyraniad cyffredinol, gan gynnwys LEADER a cheisiadau uniongyrchol o £184.2 miliwn. Bydd hyn yn cynyddu ymhellach dros y misoedd nesaf o ganlyniad i Gyfnodau Datganiad o Ddiddordeb.

Mae'r cynnydd yn erbyn y Fframwaith Perfformiad ar gyfer Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Wledig 2014-2020 ar gael yn Atodiad 5.

Dangosydd Cynnydd

Nid yw'n bosibl cynnig rhagolygon yn erbyn dangosyddion ar gyfer yr holl Fesuriadau / Meysydd Pwyslais, yn y cyfnod hwn o gyflwyno'r rhaglen. Darparwyd gwerthoedd targed cymeradwy fesul Maes Pwyslais, hyd yn oed pan nad oes rhagolygon ar gael eto.

Mae'r amrywiadau o ran cyflwyno rhagolygon a chanlyniadau gwirioneddol yn erbyn targedau dangosyddion y rhaglen oherwydd y gwahaniaethau o ran cyflwyno elfennau sy'n seiliedig ar y tir ac elfennau economaidd-gymdeithasol y rhaglen. Ar gyfer y targedau allbwn hynny na ragwelwyd, dylai'r data fod ar gael yn ystod y misoedd nesaf, yn dilyn canlyniadau a chymeradwyo'r cyfnod datganiadau o ddiddordeb. Bydd angen cadw golwg fanwl ar y gweithrediadau a'r cytundebau a gymeradwywyd er mwyn sicrhau y cyflawnir y canlyniadau.

Cyflwyno ceisiadau llawn hyd at dyddiad cau y ffenestr ariannu ac yn cael eu prosesu wrth eu derbyn. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn dangos cynnydd hyd yn hyn ar wario a dangosyddion o'r ceisiadau llawn hyn.

Ar hyn o bryd ni cesglir data dangosydd cyn i proffil cyflawni y gweithrediad cael eu cwblhau. Mae gwaith parhaus i gasglu'r data hyn pan gyflwynir y cais llawn.

Adran 2: Cynnydd yn ôl Echelin Blaenoriaeth

Blaenoriaeth 1: Annog pobl i gyfnewid gwybodaeth ac i arloesi ym maes amaethyddiaeth, coedwigaeth, ac mewn ardaloedd gwledig

Tabl 2: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg	Cyflawnwyd % hyd yn hyn	Wedi'i Cyflawni
FA 1(a) Meithrin arloesi a'r sylfaen gwybodaeth mewn ardaloedd gwledig	1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m)	£66.0	£82.3m	£0.0m	0%
	2	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m)	£16.3	£11.5m	£0.0m	0%
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m)	£91.5	£1.7m	£0.0m	0%
FA 1(b) Cryfhau'r cysylltiadau rhwng amaethyddiaeth a coedwigaeth ac ymchwil arloesi	16.1	Nifer y grwpiau gweithredol EIP l'w cefnogi (sefydliad a gweithrediad)	45	45	0	0%
	16.2 i 16.9	Nifer y gweithrediadau cydweithredu eraill (grwpiau, rhwydweithiau/clystyrau, prosiectau peilot....) (16.2 i 16.9)	1,027	57	0	0%
FA 1(c) Meithrin dysgu gydol oes a hyfforddiant galwedigaethol yn y sectorau amaethyddol a choedwigaeth	1.1	Nifer o cyfranogwyr mewn hyfforddiant	13,500	13,000	0	0%

Ffynhonnell: WEFO, 31/07/2017

Blaenoriaeth 1

Cyfnewid Gwybodaeth, Arloesedd a Gwasanaethau Cyngtori – Mesurau 1 a 2

Trosolwg: Dechreuodd contractau'r rhaglen a elwir Cyswllt Ffermio ar 1 Hydref 2015 ac roedd hyn yn cyd-daro â diwedd y gwasanaeth blaenorol. Darperir y Rhaglen Cyfnewid Gwybodaeth a'r Gwasanaeth Cyngtori gan Fenter a Busnes. Mae Lantra Cymru yn arwain ar ddarparu'r Rhaglen Ddysgu a Datblygu Cydol Oes. Ehangwyd meini prawf cymhwysedd y rhaglen i alluogi mwy o fusnesau a phobl sy'n gysylltiedig â sectorau i gymryd rhan.

Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth: Mae'r gweithgarwch yn canolbwyntio ar wella perfformiad amgylcheddol, effeithlonrwydd cynhyrchu, proffidioldeb, a chynyddu arferion ac agweddau mwy penodol i fyd busnes drwy arferion rheoli cadarnhaol. Yn rhan o'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, sefydlwyd rhwydwaith Arddangos Cymru gyfan newydd, gan gynnwys:

- Safleoedd arloesi, wedi eu lleoli yn safleoedd amaeth-academaidd arweiniol Cymru.
- Safleoedd Arddangos, rhwydwaith o safleoedd hir dymor sy'n ystyried integreiddio technoleg newydd a/neu ddulliau rheoli newydd; codi safonau effeithlonrwydd ar y fferm; lleihau mewnbynnau, cynyddu'r allbynnau; proffidioldeb.
- Meysydd Pwyslais, sy'n dangos prosiectau neu dreialon 'un-tro' mewn ystod eang o bynciau

Mae'r rhwydwaith arddangos yn cynnwys 8 safle Arloesi, 12 o Ffermydd Arddangos a 38 o feysydd pwyslais. Cynhelir amryw o brosiectau ar y safleoedd er enghraifft

dewiswyd ffermydd traws-sector i gymryd rhan yn y Prosiect Porfa Cymru a fydd yn mesur ac yn monitro cyfraddau tyfu'r borfa yn wythnosol. Defnyddia pob fferm mesuryddion plât i fesur a byddant hefyd yn casglu samplau misol i ddadansoddi'r ansawdd. Bydd pob fferm yn mesur tyfiant a maint y Deunydd Sych ac yn nodi a chymharu gwahanol ffyrdd o reoli profa.

Mentora Unigol: Datblygwyd y fenter hon i sicrhau bod gan ffermwyr a choedwigwyr fynediad at arweiniad a chynghor gan eu cyfoedion. Lluniwyd y fenter i fod o fudd i newydd-ddyfodiaid, busnesau sy'n ystyried newid pwyslais strategol arwyddocaol ac unigolion sy'n bwriadu gadael y diwydiant ac yn ystyried posibilïadau ffermio cyfran/cytundeb. Hyd yn hyn, mae 70 o fentoriaid wedi cael mynediad at gefnogaeth ar bynciau sy'n amrywio o gyngor ar reoli glaswelltir, sefydlu menter llaethdy organig a sefydlu fferm ffrwythau meddal.

Rhaglen Ddysgu a Datblygu Cydol Oes: Y nod yw darparu diwydiant ffermio a choedwigaeth fwy proffesiynol trwy gyfuniad o hyfforddiant uniongyrchol a darpariaeth e-ddysgu ar-lein. Hyd yn hyn, mae 1,455 o fuddiolwyr wedi cwblhau ac wedi hawlio am hyfforddiant ardystiedig ers Hydref 2015. Mae 26 modiwl e-ddysgu ar gael a hyd yma gwelwyd 2,122 enghraifft o e-ddysgu. Mae pynciau e-ddysgu yn amrywio o iechyd a diogelwch, cyllid fferm a rheoli llyngyr yr afu ar y fferm. Mae 2,862 Cynllun Datblygu Personol wedi eu cwblhau hyd yn hyn.

Gwasanaeth Cynghori: Mae'r gwasanaeth cynghori yn cynnig cyngor annibynnol, pwrpasol, un i un ac ar ffurf grŵp i wella rheolaeth gynaliadwy a pherfformiad economaidd ac amgylcheddol busnesau ffermio a choedwigaeth ardaloedd gwledig.

Cymeradwywyd 703 o geisiadau unigol ar gyfer y gwasanaeth hyd yn hyn ers mis Rhagfyr 2016 a 332 o geisiadau am gyngor grŵp. Bu cynnydd sylweddol yn y galw am gyngor grŵp yn y tri mis diwethaf yn dilyn y sioe deithiol 'Ffermio ar gyfer y dyfodol', a drefnwyd o dan Fesur 1 a lle hyrwyddid y fenter newydd Grant Busnes i Ffermydd. Mae gan unigolion 9 mis i wneud cais am gyllid o ddyddiad cymeradwyo'r cais, felly rhagwelir y bydd y proffil gwariant ar gyfer Mesur 2 yn cynyddu'n arwyddocaol yn y misoedd nesaf.

Menter: Cynlluniwyd Menter i helpu paru ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n bwriadu cymryd cam yn ôl o'r diwydiant, gyda newydd-ddyfodiaid sydd am ddechrau ffermio. Mae'n arwain pobl ar y ddwy ochr trwy'r camau allweddol sydd eu hangen i ddarganfod partner busnes posibl. Bydd pecyn integredig sy'n cynnwys hyfforddiant, mentora, cyngor arbenigol a chymorth i fusnesau yn rhoi'r sgiliau, gwybodaeth a hyder angenrheidiol i'r rheini sy'n cymryd rhan i'w helpu i gyflawni eu nodau.

Hyd yn hyn, mae 87 newydd-ddyfodiad a 69 ffermwyr sefydledig wedi dangos diddordeb yn y rhaglen.

Mae unigolion sydd wedi darganfod partner busnes posibl bellach yn mynd ati i wneud cais am gyngor grŵp trwy'r gwasanaeth cynghori ac am arweiniad cyfreithiol

pellach lle bo angen. Mae Llywodraeth Cymru wedi canfod 27 pâr posibl hyd yn hyn, sydd oll ar gamau gwahanol yn y broses Menter.

Sylwadau Cyffredinol: Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn ceisiadau o £6.3 miliwn gan contractwyr ar gyfer Mesur 1, a £0.5 miliwn yn gysylltiedig â Mesur 2. Rhagwelir y dylid talu'r ceisiadau hyn cyn diwedd mis Awst 2017 a'u darparu rhwng 1 Medi 2015 a 20 Ebrill 2017. Y rheswm na wnaed taliadau hyd yn hyn yw oherwydd y meysydd pwyslais lluosog a osodwyd ar y System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau.

Bydd yr ail gyfres o geisiadau yn para o 01 Mai 2017 tan 30 Mehefin 2017. Amcangyfrifir mai gwerth rhagfynegol y cais hwn yw £0.9m ar gyfer Mesur 1 a £0.2m ar gyfer Mesur 2. Mae'n debygol y caiff y ceisiadau hyn eu talu yn hwyrach eleni. Nid yw contractwyr yn gallu cyflwyno'r ceisiadau hyn ar y System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau hyd nes y gwneir y ceisiadau cyntaf.

Rhaglen Arloesi Ewrop Cymru – Mesur 16.1

Lansiwyd Partneriaeth Arloesi Ewrop Cymru ym mis Ionawr 2016 ac mae ceisiadau'n parhau i gael eu croesawu gan y rhai hynny sydd â diddordeb mewn datrys problemau sy'n gyffredin i'w Gr*^p. Cefnogir grwpiau gan Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio, sef cydweithrediad rhwng Cyswllt Ffermio a Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Prifysgol Aberystwyth.

Mae'r Ganolfan yn cynorthwyo'r Grwpiau trwy gynnal archwiliadau llenyddiaeth gefndirol i'w pwnc arfaethedig i gael dealltwriaeth well o'r hyn a wyddys am y pwnc eisoes a hysbysu'r prosiect o unrhyw fylchau yn yr wybodaeth fydd o bosib angen eu harchwilio. Mae'r Ganolfan hefyd yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad ar gynlluniau prosiect a gweithir gyda'r Grwpiau trwy gydol y prosiectau i gynorthwyo gyda chanlyniadau a lledaeniad y prosiect.

Gall y Grwpiau Gweithredol hefyd geisio cefnogaeth gan Froceriaid Arloesi. Caiff y Broceriaid Arloesi eu hariannu'n llwyr drwy'r Gwasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio ac maent yn cynnig arweiniad a chymorth i'r Gr*^p Gweithredol trwy gydol y broses ymgeisio.

Adolygwyd y broses ymgeisio a gwnaed rhai newidiadau sylweddol a ddylai wneud y broses yn syml a chaniatáu i weithgareddau'r prosiect gychwyn yn llawer mwy cyflym. Bydd hyn o ganlyniad yn caniatáu ymrwymo cyllid o dan y cynllun.

Mae Menter a Busnes wedi cyflwyno cais i ymgymryd â'r cyfrifoldeb o gefnogi'r gwaith o ddarparu prosiectau Partneriaeth Arloesi Ewrop. Golyga hyn y byddant yn cynnal cyllid pob Gr*^p Partneriaeth Arloesi Ewrop ac yn talu costau cymwys sy'n ofynnol er mwyn cyflwyno'r prosiectau. Bydd Menter a Busnes yn danfon llythyr cytundeb cyllido at y Gr*^p, a fydd yn rhoi crynodeb o'r prosiect sydd i'w gyflwyno a'r costau disgwyledig hyd at derfyn o £40,000 fesul gr*^p.

Mae'r ceisiadau presennol gyda'r Uned Rheoli Cynllun wedi eu dileu ac anfonwyd llythyrau gwrthod ffurfiol, ynghyd ag esboniad o'r newid yn y model cyflwyno.

Blaenoriaeth 2: Gwellu hyfywedd ffermydd, gwneud pob math o amaethyddiaeth ymhob rhanbarth yn fwy cystadleuol a hyrwyddo technolegau ffermio arloesol a'r rheolaeth gynaliadwy o goedwigoedd

Tabl 3: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg	Cyflawnwyd hyd yn hyn	% Wedi'i Cyflawni
FA 2(a) Hwyluso aistrwythuro ffermydd s'yn wynebu	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant	10,010	10,010	0	0%
problemau strwythurol mawr, yn enwedig ffermydd â gradd isel o gyfranogiad yn y farchnad, ffermydd s'yn canolbwyntio ar sectorau penodol yn y farchnad a ffermydd sydd angen arallgyfeirio amaethyddol	1.1	Nifer o diwrnodau o hyfforddiant a roddwyd	16,160	8,008	0	0%
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau	£2.5m	£3.2m	£0.0m	0%
	1.2	Nifer o gweithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd	1,395	1,395	0	0%
	1.3	Nifer gweithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd	39	39	0	0%
	1.1 - 1.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m) (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)	£34.1m	£42.7m	£0.0m	0%
	2.1	Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd	2,963	2,963	0	0%
	2.3	Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd	260	260	0	0%
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m)	£6.8m	£6.7m	£0.0m	0%
	4.1	Nifer o daliadau a gefnogwyd ar gyfer buddsoddiad mewn daliadau amaethyddol	2,431	15	0	0%
	4.1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m)	£56.1m	£7.8m	£0.0m	0%
	4.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m) ar gyfer buddsoddiadau mewn seilwaith	£0.0m	£0.0m	£0.0m	0%
	4	Cyfanswm gwariant (£'m) (cyhoeddus a preifat)	£140.3m	£20.5m	£0.0m	0%
	4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m)	£56.1m	£7.8m	£0.0m	0%
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m)	£0.4m	£0.3m	£0.0m	0%

Ffynhonnell: WEFO, 31/07/2017

Maes Pwyslais 2a

Y Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy - Mesur 4.1

Mae'r cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy o dan Fesur 4.1 yn cynnig cymorth buddsoddiad cyfalaf i helpu ffermwyr i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu fferm yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru a diwydiant amaethyddiaeth Cymru o ran cael busnesau fferm mwy cynaliadwy, proffidiol a chryf. Mae'r grantiau yn cynrychioli cyfraniad o 40% a gallant amrywio o leiafswm o £16k hyd at uchafswm o £400k. Y diben yw cynyddu buddsoddiad, cynhyrchu mwy a sicrhau adnoddau mwy effeithlon ar y fferm er mwyn gwella perfformiad technegol.

Bellach mae'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yn ei drydedd rownd. Gyda'r cyntaf roedd cyllideb o £2.0 miliwn a derbyniwyd 172 a gwahoddwyd 12 buddiolwr i gyflwyno cais llawn. Gyda'r ail rownd roedd cyllideb o £6.0 miliwn a derbyniwyd 172 datganiad o ddiddordeb a 39 buddiolwr. Derbyniodd y drydedd rownd, hefyd am gyllideb o £6.0 miliwn, 152 datganiad o ddiddordeb a gwahoddwyd 30 ohonynt i ail gam y broses ymgeisio.

Talwyd cyfanswm gwerth grant o £0.9 miliwn i ddeg o fuddiolwyr.

Datganiadau o Ddiddordeb: Hyd yn hyn gwahoddwyd 79 datganiad o ddiddordeb llwyddiannus i gyflwyno ceisiadau llawn o dan Flaenoriaeth 2 (Maes Pwyslais 2a) Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (yn cynrychioli cyfanswm yr ymrwymiad grant o £14.6 miliwn yn seiliedig ar y datganiadau diddordeb).

O'r rhain:

- Mae 28 cais llawn yn cael eu harfarnu, sef cyfanswm yr ymrwymiad grant o £5.6 miliwn.
- Mae 5 eto i'w cyflwyno, sy'n cynrychioli ymrwymiad grant o £0.5 miliwn.

- Cymeradwywyd 41 ohonynt, gyda chyfanswm gwerth grant o £7.7 miliwn, ac mae 25 ohonynt wedi derbyn (£4.8 miliwn).
- Gwrthodwyd/Tynnwyd 5 yn ôl, sef gwerth grant o £1.2 miliwn.

Ceisiadau Uniongyrchol: Yn ogystal â hyn, o dan Faes Pwyslais 2a, gwahoddwyd deg cais uniongyrchol, sef cyfanswm ymrwymiad grant o £29.9 miliwn. O'r rhain, cymeradwywyd wyth ohonynt (£29.1 miliwn), ac o'r rhain mae saith wedi derbyn (£27.7 miliwn).

O'r deg cais uniongyrchol ceir;

- 8 cais Cyswllt Ffermio
- 1 cais Gwasanaeth Cynghori Busnesau Gwledig (Cyfoeth Naturiol Cymru)
- 1 cais Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (Greenfin Aquaponics)

O'r wyth cais uniongyrchol a gymeradwywyd ceir;

- 7 cais Cyswllt Ffermio
- 1 cais Gwasanaeth Cynghori Busnesau Gwledig

O'r ddau gais uniongyrchol sydd eto i'w cyflwyno ceir;

- 1 cais Grant Cynhyrchu Cynaliadwy
- 1 cais Cyswllt Ffermio

Blaenoriaeth 3: Hyrwyddo cadwyni cyflenwi bwyd a rheoli risg mewn amaethyddiaeth

Tabl 4: Cynnydd yn erbyn y dangosyddion

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg	Cyflawnwyd hyd yn hyn	% Wedi'i Cyflawni
FA 3(a) Integreiddio gwell o gynhyrchwyr cynradd yn y gadwyn fwyd drwy gynlluniau o ansawdd, hyrwyddo mewn marchnadoedd lleol a chylchoedd cyflenwi byr, grwpiau cynhyrchwyr a sefydliadau cydadrannol	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant	1,150	650	0	0%
	1.1	Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd	6,345	520	0	0%
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau	£21.8m	£0.2m	£0.0m	0%
	1.2	Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd	91	91	0	0%
	1.1 - 1.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)	£23.9m	£2.8m	£0.0m	0%
	2.1	Nifer o buddiolwyr a gynghorwyd	303	303	0	0%
	2.3	Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd	27	27	0	0%
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.7m	£0.9m	£0.0m	0%
	4.1 + 4.2	Nifer o weithrediadau a gefnogwyd ar gyfer fuddsoddiad (ee mewn taliadau amaethyddol, mewn prosesu ac mewn marchnata cynnyrch amaethyddol) (4.1 and 4.2)	120	24	0	0%
	4	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)	£93.6m	£73.7m	£0.0m	0%
	4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£35.8m	£24.6m	£0.0m	0%
	16.4	Nifer o daliadau amaethyddol yn cymryd rhan mewn cydweithredu/hybu lleol ymhlith gweithredwyr yn y gadwyn gyflenwi (16.4)	165	414	0	0%
	16	Nifer y gweithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (nid EIP)	165	0	0	0%
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£26.5m	£1.6m	£0.0m	0%

Ffynhonnell: WEFO, 31/07/2017

Maes Pwyslais 3a

Datganiad o Ddiddordeb: Hyd yn hyn, gwahoddwyd 103 datganiad o ddiddordeb llwyddiannus i gyflwyno ceisiadau llawn o dan Flaenoriaeth 3 (Maes Pwyslais 3) y rhaglen. Mae tair cais ar ddeg wedi tynnu yn ôl neu wedi eu gwrthod, sy'n gadael cyfanswm ymrwymiad grant o £37.5 miliwn yn seiliedig ar y datganiadau ddiddordeb

O'r rhain, mae 51 cais llawn yn cael eu harfarnu neu wedi'u cymeradwyo ac mae 39 eto i'w cyflwyno, sy'n cynrychioli cyfanswm ymrwymiad grant o £37.5 miliwn. O'r rhain:

- Agorwyd pedwar cyfnod datgan diddordeb ar gyfer y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio: Cymeradwywyd 6 chais (£1.8 miliwn); gwrthodwyd 6 cais (£1.4 miliwn);
- Agorwyd pedwar cyfnod datgan diddordeb ers lansiad y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd: mae 18 cais yn cael eu harfarnu (£9.4 miliwn); cymeradwywyd 27 cais (£24.6 miliwn), ac mae 25 wedi derbyn (£22.9 miliwn); mae 39 cais eto i'w cyflwyno (£1.6 miliwn) a gwrthodwyd 7 cais (£1.0 miliwn);

Ceisiadau Uniongyrchol: Mae pum ymgeisydd uniongyrchol wedi cyflwyno ceisiadau llawn ar gyfer y cynllun Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi o dan Fesur 1.1. Cymeradwywyd pedwar ohonynt, gyda chyfanswm ymrwymiad grant o £22.2 miliwn. Mae hyn yn cynnwys Prosiect Helix sydd gwerth £21.9 miliwn.

Blaenoriaeth 4: Adfer, cadw a gwella ecosystemau sy'n ddibynol ar amaethyddiaeth a choedwigaeth

Tabl 5: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg	Cyflawnwyd hyd yn hyn	% Wedi'i Cyflawni
Blaenoriaeth 4: Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer o cyfranogwyr mewn hyfforddiant	1,040	1,040	0	0%
	1.1	Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd	832	832	0	0%
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau	£0.3m	£0.3m	£0.0m	0%
	1.2	Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd	145	145	0	0%
	1.3	Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd	4	4	0	0%
	1.1 - 1.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)	£3.5m	£4.4m	£0.0m	0%
	2.1	Nifer o buddiolwyr a gynghorwyd	3,344	758	0	0%
	2.3	Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd	67	67	0	0%
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£4.0m	£2.2m	£0.0m	0%
	4.4	Nifer o weithrediadau cymorth ar gyfer fuddsoddiadau anghynhyrchiol (4.4)	14,590	9,453	255	2%
	4	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)	£86.0m	£107.0m	£1.0m	1%
	4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£86.0m	£107.0m	£1.0m	1%
	8.1	Arwynebedd (ha) i gael ei coedwigo (sefydliad yn unig- 8.1)	2,498	2,000	314	13%
	8.1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£14.3m	£10.6m	£1.3m	9%
	8.2	Arwynebedd (ha) i'w sefydlu mewn systemau amaeth-coedwigaeth (8.2)	50	50	1	2%
	8.2	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (8.2)	£0.0m	£0.2m	£0.0m	7%
	10.1	Cyfanswm arwynebedd (ha) o dan hinsawdd amaeth-amgylcheddunder (10.1)	1,417,210	0	0	0%
	10.1	Arwynebedd Ffisegol (ha) o dan hinsawdd ameth-amgylchedd (10.1)	635,399	528,010	676,469	106%
	10.1	Nifer o contractau a gefnogwyd	7,338	7,338	6,877	94%
	10.1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£) (10.1+10.2)	£184.7m	£230.1m	£39.3m	21%
	11.1	Nifer o daliadau a gefnogwyd	201	201	147	73%
	11.1	Arwynebedd (ha) a trosglwywyd i ffermio organig	11,153	11,153	15,018	135%
	11.2	Nifer y daliadau a gefnogwyd	341	341	446	131%
	11.2	Arwynebedd (ha) cynnal ffermio organig	57,287	57,287	57,544	100%
	11	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£)	£21.2m	£21.2m	£3.9m	19%
	16	Nifer o weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (dim EIP)	25	0	0	0%
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£)	£7.6m	£0.4m	£0.0m	0%

Flynnonell: WEFO, 31/07/2017

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg	Cyflawnwyd hyd yn hyn	% Wedi'i Cyflawni
Priority 4: Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth (ardal coedwigaeth)	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer o cyfranogwyr mewn hyfforddiant	130	130	0	0%
	1.1	Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd	104	104	0	0%
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau	£30k	£40k	£0.0m	0%
	1.2	Nifer o gweithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd	18	18	0	0%
	1.3	Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd	1	1	0	0%
	1.1 - 1.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)	£0.4m	£0.4m	£0.0m	0%
	2.1	Nifer o buddiolwyr a gynghorwyd	851	51	0	0%
	2.3	Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd	4	4	0	0%
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£1.2m	£0.1m	£0.0m	0%
	8.3	Nifer o fuddiolwyr ar gyfer camau gweithredu ataliol (8.3)	1	0	0	0%
	8.3	Arwynebedd a gefnogwyd (ha)	76,000	0	0	0%
	8.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£)	£0.3m	£0.0m	£0.0m	0%
	8.4	Nifer o fuddiolwyr a gefnogwyd	61	0	47	77%
	8.4	Arwynebedd a gefnogwyd (ha)	594	0	358	60%
	8.4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£1.3m	£0.0m	£0.8m	57%
	8.5	Nifer o weithrediadau (fuddsoddiadau ar gyfer wella gwydnwch a werth ecosystemau coedwigaeth) (8.5)	403	501	149	37%
	8.5	Ardaloedd sy'n gysylltiedig a fuddsoddiadau gwella gwydnwch a gwerth amgylcheddol ecosystemau coedwigoedd (8.5)	9,445	7,000	335	4%
	8.5	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£4.1m	£5.6m	£0.5m	13%
	15.1	Nifer o contractau a gefnogwyd	70	0	0	0%
	15.1	Ardaloedd dan gontract amgylchedd coedwig	700	0	0	0%
	15.1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.3m	£0.0m	£0.0m	0%
	16	Nifer o weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (dim EIP)	10	0	0	0%
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£3.4m	£0.1m	£0.0m	0%

Flynnonell: WEFO, 31/07/2017

Blaenoriaeth 4

Mae'r diweddariad ar gyfer y Flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar y cynnydd o dan Glastir hyd yn hyn. Dylid nodi bod yr adroddiad hwn hefyd yn ymdrin â Meysydd Pwyslais 5d a 5e o Flaenoriaeth 5. Rhoddir manylion pellach isod.

Mae **Glastir** yn ymdrin â'r Meysydd Pwyslais canlynol:

- Glastir Sylfaenol ac Uwch – Meysydd Pwyslais 4a, 4b, 5d a 5e.
- Tir Comin Glastir – Maes Pwyslais 4a.
- Glastir Organig – Maes Pwyslais 4c.
- Grantiau Bach Glastir – Meysydd Pwyslais 4a (Thema Tirwedd a Phryfed peillio), 4b (thema Ansawdd Dŵr) a 5e (thema Carbon).
- Creu Coetir Glastir – holl feysydd Pwyslais Blaenoriaeth 4 a Maes Pwyslais 5e.
- Rheoli ac Adfer Coetir Glastir – Maes Pwyslais 4a a 5e.

Mesur 4.4 - Mae'r mesur yn cefnogi buddsoddiadau anghynhyrchiol yn Glastir Uwch a'r Grantiau Bach Glastir annibynnol. Hyd yn hyn, cynhaliwyd tri chylch o Grantiau Bach Glastir, gan ymdrin ag un o dair thema ym mhob rownd. Thema'r cylch cyntaf oedd 'Carbon' oedd yn ymdrin â Maes Pwyslais 5e. Cymeradwywyd 819 o brosiectau ar gyfer 353 o gyfranogwyr, gyda gwerth o £1.6 miliwn.

Thema'r ail gylch oedd 'Ansawdd Dŵr' oedd yn ymdrin â Maes Pwyslais 4b. Cymeradwywyd 2,468 prosiect ar gyfer 516 o gyfranogwyr, gyda gwerth o £2.0 miliwn.

Thema'r trydydd cylch oedd 'Tirwedd a Phryfed Peillio' ac ymdriniwyd â Maes Pwyslais 4a. Cymeradwywyd cyfanswm o 790 prosiect o dan y cylch hwn ar gyfer 252 o gyfranogwyr, gyda gwerth o £1.6 miliwn.

Mesur 10.1 - Mae hyn yn cynnwys cynlluniau Glastir Sylfaenol, Uwch a Thir Comin. Mae hefyd yn cynnwys taliadau aml-flynyddol, fesul ardal, ar gyfer coetiroedd fferm presennol o dan gynllun Rheoli Coetir Glastir a bu cyfanswm gwariant o £28.2 miliwn. Hyd yma cafwyd 6,877 o gontractau o dan Fesur 10.1 sy'n cwmparu ardal o 676,469 hectar. Mae Glastir Sylfaenol wedi cyflawni cyfanswm o 4,603 contract, sy'n gyfystyr â chyfanswm arwynebedd o 543,496 hectar yn erbyn ardal ragolygol o 548,750 hectar. Ni chynigir unrhyw gytundebau Sylfaenol pellach, oherwydd cred Llywodraeth Cymru bod ymyriadau mwy penodol, megis y rhai hynny yn Glastir Uwch, a bellach, yng nghynllun Grantiau Bach Glastir, yn fwy addas i gyflawni ei hamcanion. Bydd cyfle gan y rheini sy'n rhan o Glastir Sylfaenol ac sydd â chontractau yn dod i ben ym mis Rhagfyr i gyflwyno cais i gynllun Grantiau Bach Glastir. Cynllun cyfalaf yw hwn a ariennir drwy Fesur 4.4 sy'n ymdrin â Meysydd Pwyslais 4a a 4b Blaenoriaeth 4, yn ogystal â Meysydd Pwyslais 5d a 5e Blaenoriaeth 5.

Mesurau 10.1 a 4.4 – Mae Glastir Uwch bellach yn cynnwys 2,403 contract, ac mae 895 ohonynt yn gontractau annibynnol, 1,508 yn cael eu hategu gan Glastir Sylfaenol a 79 contract arall yn Nhir Comin Glastir. Roedd gwariant o dan y Cynllun Datblygu Gwledig yn £13.9 miliwn ar gyfer Mesur 4.4 a £16.9 miliwn ar gyfer Mesur 10.1.

Dechreuodd cyfnod y datganiadau o ddiddordeb ar gyfer ceisiadau am gontractau Glastir Uwch 2018 ar 28 Chwefror a daeth i ben ar 31 Mawrth 2017. Y gwerth a ragwelir ar gyfer cyfnod datganiadau o ddiddordeb Glastir Uwch 2018 yw £18.4 m. Dewiswyd cyfanswm o 380 datganiad o ddiddordeb i dderbyn Ymweliadau Rheolwr Contractau am weddill y flwyddyn hon, gyda 80 ychwanegol ar y rhestr wrth gefn. Rydym yn rhagweld tua 340 contract.

Mesur 10.1 – Tir Comin Glastir – dim newid o'r adroddiad blaenorol.

Mesur 11 – Glastir Organig – dim newid o'r adroddiad blaenorol.

Mesur 8.1 ac 8.2: o dan gynllun **Creu Coetir Glastir** sefydlwyd 507 hectar o goetir newydd. Sefydlwyd y mwyafrif o dan Fesur 8.1 – coedwigo a chreu coetir, gydag ond 1 hectar o dan Fesur 8.2 - Amaeth-goedwigaeth. Cyfanswm y gwariant hyd yn hyn yw £2.1m. Derbyniwyd y ceisiadau cyntaf am waith cynnal ac am incwm a ildwyd trwy Ffurflen Cais Sengl 2017. Prosesir hawliadau ym mis Chwefror 2018.

Agorwyd trydedd rownd ar gyfer Creu Coetir Glastir, gyda chyllideb o £1.7 miliwn, ar 30 Awst a daeth i ben ar 14 Hydref 2016, pan dderbyniwyd 95 datganiad o ddiddordeb gyda chyfanswm arwynebedd plannu o 787.45 hectar yn cael ei gyflwyno a gwerth cyfalaf o £2.8 miliwn. Cynhaliwyd proses ddethol er mwyn glynu at y gyllideb a benodwyd a gwahoddwyd 66 datganiad o ddiddordeb i gyflwyno eu cynlluniau creu coetir. Derbyniwyd 48 Cynllun Creu Coetir.

Agorwyd pedwaredd rownd ar gyfer Creu Coetir Glastir, gyda chyllideb o £1.7 miliwn, ar 20 Mawrth a daeth i ben ar 1 Mai 2017, pan dderbyniwyd 103 datganiad o ddiddordeb gyda chyfanswm arwynebedd plannu o 1,214 hectar yn cael ei gyflwyno a gwerth cyfalaf o £4.0m. Cynhaliwyd proses ddethol er mwyn glynu at y gyllideb a benodwyd a gwahoddwyd 63 datganiad o ddiddordeb i gyflwyno eu Cynlluniau Creu Coetir.

Dechreuodd pumed rownd o Greu Coetir Glastir ar 31 Gorffennaf a bydd yn dod i ben ar 25 Awst 2017.

Mae'r ffigurau a roddwyd yn nhabl Blaenoriaeth 4 ar gyfer hectarau a gefnogir a gwariant o dan Fesur 8.1 wedi lleihau oherwydd cywiro data a derbyniwyd yn flaenorol. Roedd gwerthoedd yn yr adroddiad diwethaf yn dangos data anghywir o dan Flaenoriaeth 4 a ddylai fod wedi ei gofnodi o dan Faes Pwyslais 5e.

Mesur 8.5 – Mae Rheoli Coetir Glastir yn cynnwys contractau etifeddol yn unig o'r Cynllun Datblygu Gwledig blaenorol. Caiff y cyllid ei dalu trwy Fesur 8.5 ar gyfer taliadau cyfalaf a Mesur 10.1 ar gyfer taliadau aml-flynyddol, yn seiliedig ar ardaloedd. Ar hyn o bryd, mae 268 contract yn bodoli, gyda gwariant o dan y Cynllun Datblygu Gwledig hwn yn gyfystyr â £2.1m ar gyfer Mesur 8.5.

Mesur 8.4: Mae **Adfer Coetir Glastir** yn cefnogi ailstocio coetiroedd llarwydd sydd wedi eu heintio neu sydd dan fygythiad y pathogen ffwngaid, *Phytophthora ramorum*.

Hyd yn hyn, £1.3m yw'r gwariant o dan y pedwar cyfnod cyntaf, gan roi arwynebedd o 566 hectar o goetir sydd wedi ei adfer.

Agorwyd pumed rownd ar gyfer Adfer Coetir Glastir, gyda chyllideb o £1.0m, ar 05 Mehefin a daeth i ben ar 30 Mehefin 2017. Derbyniwyd 63 datganiad o ddiddordeb a chyflwynwyd cyfanswm arwynebedd ail-stocio o 442 hectar a gwerth cyfalaf o £1.0m. Ar gyfer y rownd hon o Adfer Coetir Glastir, cynigir grant rheoli cynllunio fel bod modd mynd ati mewn modd arbenigol i ganfod ansawdd Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol. Yna, ar ôl gwneud hynny, i ailblannu gyda chymysgedd o goed sy'n ddibynnol ar allu'r safle i adfer, yn hytrach na'i leoliad.

Mesur 2.1 - O dan y rhaglen Cymorth Cynghori, mae Glastir yn bwriadu defnyddio cymorth cynghori er mwyn i Gyfoeth Naturiol Cymru allu cynnal cynlluniau rheoli dŵr a gwirio cynlluniau coetir yn erbyn Safon Goedwigaeth y DU. Mae'n rhaid hefyd defnyddio arbenigedd ymddiriedolaethau archeolegol Cymru i roi cyngor i Reolwyr

Contract ynglŷn â'r dull rheoli mwyaf addas ar gyfer contractau Glastir Uwch. Hyd yn hyn, ni ddyfarnwyd unrhyw gyllid.

Hefyd, gwnaeth adroddiad Panel Gwerthuso Annibynnol Glastir Uwch nifer o argymhellion gan gynnwys rhoi arweiniad, cymorth a hyfforddiant o safon uwch i Reolwyr Contractau, a bod angen mwy o ymweliadau dilynol a chynghor ar gytundebau. Er mwyn sicrhau hyn, dechreuodd Llywodraeth Cymru gaffael gwasanaeth a allai gyflawni cylch gwaith yr argymhellion hyn. O ystyried y sefyllfa ansicr bresennol ynghylch cyllid yn y dyfodol ac i sicrhau nad oes unrhyw oedi pellach o ran cyflwyno'r haen bwysig hon o ddarpariaeth gynghori, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu defnyddio'r adnodd Rheolwr Contractau Glastir Uwch i gynnal ymweliadau gwasanaethu. Mae'r dewisiadau ar gyfer darparu a chaffael cynghor arbenigol i reolwyr contract yn dal o dan ystyriaeth.

Mesur 16.5 - Hyd yn hyn, mae gan y Cynllun Rheoli Cynaliadwy 24 datganiad o ddiddordeb llwyddiannus, a gwahoddwyd nhw i gyflwyno ceisiadau llawn i'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy lle mae cyfanswm ymrwymiad grant o £11.1 miliwn. Gwahoddwyd 19 cais llawn i wneud cais o dan gynllun Partneriaeth Arloesi Ewrop. Nid yw cyfanswm yr ymrwymiad grant ar gael eto ar gyfer Partneriaeth Arloesi Ewrop.

Mesurau 1, 2 & 16.1: Mae'r cynnydd o dan Gyswllt Ffermio a Phartneriaeth Arloesi Ewrop ar gael o dan ddiweddariad Blaenoriaeth 1.

Blaenoriaeth 5: Hyrwyddo effeithlonrwydd o ran adnoddau â chynorthwyo'r gwaith o symud at garbon isel, sy'n gallu gwrthsefyll effeithiau'r hinsawdd, yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth

Tabl 6: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Cyflawnwyd Rhagolwg hyd yn hyn	% Wedi'i Cyflawni	
